



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd

Gorffennaf 2010



ISBN 978 0 7504 5636 4
G/MH/3693/07-10

Gorffennaf
IB002-02-qA856445

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2010

Cynnwys

| | | |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad i adnewyddu'r economi | 2 |
| 2. | Deall yr heriau a'r cyfleoedd | 5 |
| 3. | Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd | 9 |
| 4. | Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes | 14 |
| 5. | Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau | 23 |
| 6. | Annog arloesedd | 32 |
| 7. | Targedu'r cymorth rydym yn ei gynnig i fusnesau | 38 |
| 8. | Ymgysylltu a phartneriaethau parhaus | 49 |
| 9. | Cyflawni er mwyn adnewyddu'r economi | 51 |

1. Cyflwyniad i adnewyddu'r economi

Mae gan bobl Cymru ddyheadau pellgyrhaeddol – fel unigolion, fel teuluoedd, fel aelodau o gymunedau ac fel cenedl. Mae Cymru yn haeddu cael ei chydabod yn eang fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fyw, gweithio a ffynnu ynddo.

Fel Llywodraeth, rydym am economi gref, nid er ei mwyn ei hun, ond oherwydd y cyfraniad hollbwysig y gall ei wneud i ansawdd bywyd a lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru, gan sefydlu datblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol.

Heddiw, caiff y dyheadau hyn eu llywio – ond nid eu cyfyngu – gan yr hinsawdd economaidd fyd-eang. Mae Cymru, ynghyd â gweddill y byd, yn dod o ddirwasgiad sydd wedi dangos sut y gall newidiadau mewn marchnadoedd byd-eang, yn enwedig gwasanaethau ariannol a nwyddau, effeithio ar economïau gwledydd unigol. Ar yr un pryd, mae'r dirwasgiad wedi dangos bod datganoli wedi rhoi'r cymhelliant a'r arloesedd i helpu Cymru drwy gyfnod o ddirywiad.

Ar hyd yr amser, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid mewn ffyrdd newydd i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad. Llwyddodd Uwchgynadleddau Economaidd Cymru Gyfan i ddwyn rhanddeiliaid ynghyd mewn ysbryd newydd o bartneriaeth – o gwmpas yr un bwrdd, gyda'r un nod.

A thrwy'r bartneriaeth hon, daeth ein rôl yn gliriach nag erioed o'r blaen, fel rôl Llywodraeth gyfan, nid dim

ond swyddogaeth datblygu busnes. Oherwydd er bod y Llywodraeth ei hun yn cyfrannu'n sylweddol ac yn uniongyrchol i'r economi o ran arloesedd, swyddi, caffael a buddsoddi cyfalaf, ni all greu swyddi a ffyniant yn yr economi ehangach. Fodd bynnag, gall ddarparu'r amodau a'r fframwaith i alluogi'r sector preifat i ffynnu. Mae gan lywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, rôl hollbwysig i'w chwarae o ran llunio'r amgylchedd y mae busnesau'n gweithredu ynddo, darparu seilwaith rhwydwaith, datblygu sgiliau, gweithleoedd iach a chefnogi gwaith ymchwil a datblygu.

Nid yw hon yn dasg y gellir ei dirprwyo'n hawdd i asiantaeth allanol. Mae'n dasg eang iawn ac yn galw am ymdrech gydlynol traws-Llywodraethol. Rydym ni fel Llywodraeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau ac mae hyn hefyd o fantais sylweddol i Gymru. Mae'n golygu y ceir prosesau symlach ar gyfer gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth ac atebolrwydd gwleidyddol cryf, a dull mwy ymatebol a chydlynol o weithredu ar draws y Llywodraeth. Ni allwn fforddio gweithredu yn y ffordd anghywir neu beidio â chyflawni – mae rhagolygon ariannol y gwasanaethau cyhoeddus yn golygu na allwn wneud unrhyw gamgymeriadau ac mae'r rhagolygon hyn, yn eu tro, yn dibynnu ar dwf economaidd parhaus.

Mae hyn i gyd yn golygu bod rhaid mabwysiadu dull ffres o lunio a chyflawni polisiâu. Rydym wedi ymgysylltu o'r cychwyn cyntaf, oherwydd ein bod yn gwybod nad oes gennym yr atebion i

gyd ac rydym am wneud defnydd llawn o'r syniadau a'r profiadau amrywiol o'n cwmpas er mwyn llunio'r rhaglen.

Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau unigol, sefydliadau cynrychioliadol, awdurdodau lleol, y trydydd sector, academyddion ac arbenigwyr eraill, a'r cyhoedd. Rydym wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau, o drafodaethau bord gron a chyfarfodydd wyneb yn wyneb eraill i holiadur ar-lein, arolwg busnes ac ymgynghoriad ffurfiol.

Rydym wedi cael ein calonogi gan y parodrwydd i gymryd rhan, a'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad a welwyd yn y cyfraniadau. Mynegwyd safbwyntiau amrywiol a heriol.

Ochr yn ochr â'r mewnbwn gwerthfawr hwn, rydym wedi adolygu tystiolaeth gan gynnwys data cymdeithasol ac amgylcheddol, arfer da yng Nghymru a thu hwnt ac rydym wedi ystyried nodweddion sylfaenol economi Cymru.

Felly seiliwyd ein rhaglen newydd ar yr amrywiaeth ehangaf posibl o safbwyntiau a thystiolaeth, ac mae wedi ein galluogi i ddatblygu cyfeiriad newydd i adnewyddu'r economi. Un o gasgliadau amlwg ein gwaith dadansoddi yw bod yr economi yn rhy ddynamig i allu llunio rhagolygon credadwy dros y cyfnod hirdymor, gyda galw ymysg defnyddwyr yn newid yn ddigyfaddawd, cwmnïau newydd yn ffurfio ac yn methu yn barhaus, ad-drefnu byd-eang ar raddfa fawr o bosibl a chynnydd mewn arloesedd.

Felly amlinellwn sut y gallwn helpu i lunio'r amodau ar gyfer economi ddynamig, a'r rôl y gall y llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach ei chwarae i annog llwyddiant yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Ein gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi yw economi sy'n seiliedig ar

gryfderau a sgiliau pobl ac amgylchedd naturiol Cymru; a gaiff ei chydabod gartref a thramor fel gwlad hyderus, greadigol ac uchelgeisiol; lle gwych i fyw a gweithio ynddo.

Ein pum blaenoriaeth ar gyfer cyflawni'r weledigaeth hon yw:

- **Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon.** Mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru i gynnal twf economaidd a lles ein pobl. Mae angen cysylltiadau da ar ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau o fewn Cymru a thu hwnt, ac mae angen iddynt allu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau cywir yn y lleoedd lle maent yn byw ac yn gweithio.
- **Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes.** Mae angen i ni ddatblygu amodau sydd nid yn unig yn galluogi, ond yn helpu, pobl a busnesau i ffynnu mewn modd cynaliadwy – drwy fanteisio i'r eithaf ar ein hasedau, trwy wella iechyd ein poblogaeth o oedran gweithio a chael cydbwysedd cywir rhwng amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.
- **Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau.** Sylfaen pob economi yw ei phoblogaeth sy'n gweithio ac mae addysg a sgiliau ar bob lefel yn hanfodol er mwyn sicrhau twf economaidd a ffyniant yng Nghymru. Mae cyflawni hyn yn gyfrifoldeb ar y cyd arnom ni fel Llywodraeth, darparwyr addysg, cyflogwyr ac unigolion.
- **Annog arloesedd.** Mae Ymchwil a datblygu yn chwarae rôl bwysig o ran ysgogi arloesedd, ac arloesedd yw un o'r ffactorau allweddol sy'n hybu twf economaidd a chynnydd hirdymor mewn lles. Rhaid i Gymru symud tuag at economi seiliedig ar wybodaeth sy'n cynnwys mwy o ymchwil a datblygu, lle mae'r amodau'n gywir i arloesedd

ffynnu.

Dechrau ein deialog yw hwn, nid y diwedd.

- **Targedu'r cymorth rydym yn ei gynnig i fusnesau.** Mae angen i ni dargedu ein hadnoddau yn y manau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, gan weithredu fel cyfrwng galluogi ar gyfer yr economi i gyd yn hytrach na darparwr gwasanaethau mawr i fusnesau unigol. Byddwn yn cynorthwyo busnesau mewn ffordd strategol sy'n seiliedig ar sectorau, gan ddatblygu ein rôl fel hwylusydd a galluogydd arbenigol.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, rhaid i'r Llywodraeth i gyd weithredu. Bydd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn hyrwyddo datblygiad economaidd yn gynyddol drwy ryngweithio ag Adrannau a'r sector cyhoeddus ehangach. Bydd hyn yn galw am ad-drefnu sylweddol yn yr Adran er mwyn integreiddio swyddogaethau, creu dull mwy cydlynol o weithredu, a defnyddio ei strwythur rhanbarthol cryf wrth drosi blaenoriaethau cenedlaethol yn gamau gweithredu lleol.

Yn bwysicach oll, ni allwn wireddu'r weledigaeth hon ar ein pen ein hun. Rhaid i ni adeiladu ar y partneriaethau a ffurfiwyd yn ystod y dirywiad – gyda'r sector preifat, y trydydd sector, awdurdodau lleol, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, y GIG ac eraill.

Rydym hefyd am gael mewnbwn parhaus gan y rhai a gymerodd ran yn y broses ymgysylltu, a'r rheini na chymerodd ran. Ni allwn dderbyn pob safbwynt ac nid ydym yn ceisio gwneud hynny. Ond rydym wedi ymrwymo i roi ystyriaeth ddyledus i gynigion hyd yn oed os na allwn eu derbyn ar unwaith. Ac rydym am i bobl leisio barn ar sut y dylem fesur ein cynnydd ni a chynnydd yr economi. Yn bwysicach oll, rydym am annog syniadau a sicrhau eu bod yn parhau i lifo.

2. Deall yr heriau a'r cyfleoedd

Mae'r dirwasgiad wedi newid y ffordd y mae marchnadoedd, busnesau a llywodraethau'n gweithredu ac wedi gosod yr economi fyd-eang ar lwybr newydd. Mae wedi dod â heriau modern fel newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â gwendidau strwythurol economi Cymru, i'r amlwg. Ond mae hefyd wedi amlygu cyfleoedd allweddol y mae angen i Gymru fanteisio arnynt.

Heriau

Mae'r tirlun economaidd ar ôl y dirwasgiad yn cyflwyno heriau sylweddol:

- Mwy o integreiddio a rhyngddibyniaeth byd-eang
- Diffyg cyllidebol mawr y DU a chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus
- Yr angen i barhau i fod yn gystadleuol drwy arloesedd a datblygiadau technolegol
- Mynediad cyfyngedig a drud i arian ar gyfer unigolion a busnesau.

Yn ogystal â'r flaenoriaeth uniongyrchol o wella ar ôl y dirwasgiad, mae heriau ehangach yn effeithio ar ein camau i adnewyddu'r economi hefyd:

- Yr angen i ymateb i newid yn yr hinsawdd drwy wella cynhyrchiant adnoddau a datgarboneiddio cyflenwadau ynni
- Pwysau ar dir am ddibenion lluosog – cynhyrchu bwyd, tai a datblygu economaidd, tirwedd, cadwraeth natur a bioamrywiaeth, rheoli dŵr ac ynni

- Cyfran barhaus o'n poblogaeth sy'n economaidd anweithgar, â lefelau isel o gymwysterau neu ddim o gwbl, ac sy'n aml yn byw mewn cymunedau lle nad oes llawer o gyfleoedd o ran swyddi
- Galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus o safon.

Mae'r tirlun cymhleth hwn yn golygu nad oes atebion syml i adnewyddu'r economi. Bydd yn rhaid gweithio'n galed i gadw cydbwysedd rhwng:

- nodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sydd weithiau'n groes i'w gilydd
- defnyddio adnoddau ar gyfer newid strwythurol hirdymor a chanlyniadau gweladwy sy'n fwy uniongyrchol
- gwario ar y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a buddsoddi mewn seilwaith a chadernid yn y dyfodol.

Gellir mynd i'r afael â'r rhain drwy ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, gan roi lles hirdymor wrth wraidd ein polisïau a'n camau gweithredu.

Mae heriau tebyg yn wynebu'r rhan fwyaf o ardaloedd yr Undeb Ewropeaidd. Croesawn felly Strategaeth Ewrop 2020 (EU2020), sy'n tanlinellu'r angen i barhau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu ac arloesedd, swyddi a sgiliau a'r economi carbon isel. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'n partneriaid ledled Cymru i sicrhau llwyddiant ein rhaglenni presennol a sicrhau y caiff llais Cymru ei glywed wrth lunio polisïau Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol.

Economi Cymru

Rydym yn cydnabod, dros y cyfnod hirdymor, nad yw perfformiad economi Cymru wedi bodloni disgwyliadau, yn enwedig o ran Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen. Y ddau ffactor sy'n uniongyrchol gyfrifol am sefyllfa Cymru yw cyfradd cyflogaeth isel a chyflogau cyfartalog isel (sy'n adlewyrchu cynhyrchiant cyfartalog isel). Wrth gymharu Cymru â rhanbarthau tebyg yn y DU, gwelir bod y ffactorau hyn yn debyg o ran eu pwysigrwydd ar y cyfan.

Mae tair prif her yn sail i gyfradd cyflogaeth Cymru, ei chyfradd cynhyrchiant ac felly ei chyfradd twf:

- Cymysgedd sgiliau diffygiol, yn enwedig y gyfradd uchel o unigolion â lefelau isel o gymwysterau neu ddim o gwbl; mae lefelau isel o sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl yn gysylltiedig â chyfradd cyflogaeth isel a chyflogau a chynhyrchiant cyfartalog isel
- Mae absenoldeb cytrefiad mawr (yn ôl safonau Ewropeaidd) yn gysylltiedig â chyflogau a lefelau cynhyrchiant sy'n is nag y byddent fel arall ("effaith crynhoad"); fodd bynnag, mae cyfle allweddol yn y tymor canolig i adeiladu ar y twf cyflym a ragwelir ym mhoblogaeth Caerdydd, ein prifddinas
- Cyfran gymharol uchel o bobl o oedran ymddeol.

Mae'r broses ymgynghori wedi cadarnhau ein barn bod ystyried ystod ehangach o ddangosyddion a chyfres ehangach o gymaryddion na Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) yn unig, yn rhoi darlun mwy cytbwys. Er enghraifft, y dangosydd gorau sydd ar gael o safonau byw cymharol yw incwm gwario – mesur o'r nwyddau a'r gwasanaethau y gellir eu prynu ag incwm y cartref. Gan ddefnyddio'r mesur hwn mae Cymru'n sgorio'n uwch o fewn y DU (na GVA) ac

mae'n perfformio'n well nag Iwerddon a rhannau o Sgandanafia, gan gynnwys Denmarc.

Mae rhai o nodweddion economi Cymru yn wahanol i ganfyddiadau cyffredin. Er gwaethaf yr heriau y mae economi Cymru wedi'u hwynebu, mae safonau byw wedi dyblu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Mae twf hirdymor wedi'i ysgogi gan welliannau mewn cynhyrchiant, technoleg, arloesedd a sgiliau. Mae'r economi yn ddynamig yn yr ystyr y caiff swyddi newydd eu creu a'u colli bob wythnos; achosion o ymestyn a chrebachu ar raddfa fach yw'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn, nid achosion o agor a chau busnesau mawr sy'n denu'r rhan fwyaf o sylw'r cyfryngau. Mae'r cymysgedd cwmnïau yng Nghymru yn debyg i'r hyn a geir yn y DU yn ei chyfanrwydd, gyda chwmnïau mawr yn cyfrif am ychydig llai na hanner y cyfanswm swyddi, a BBACHau yn cyfrif am ychydig dros hanner. O ran cyfran weithgynhyrchu'r economi, mae Cymru bellach tua chanol y tabl ar gyfer gwledydd datblygedig. Mae swyddi ym maes gweithgynhyrchu yn dirywio yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig, gan gynnwys Cymru, lle mae bellach yn cyfrif am tua 11% o'r cyfanswm swyddi.

Mae'r sector cyhoeddus yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i GYC mewn meysydd fel iechyd ac addysg, drwy'r gwasanaethau y mae'n eu darparu a thrwy arloesedd, caffael, gwariant cyfalaf a swyddi. Er gwaethaf canfyddiad cyffredinol y cyhoedd, nid yw nifer y swyddi sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyfran o'n poblogaeth llawer yn uwch na chyfartaledd y DU. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r twf mewn swyddi yn y sector preifat wedi bod yn fwy na'r twf mewn swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, er mai'r gwrthwyneb sydd wedi digwydd yn y DU yn ei chyfanrwydd. Mewn rhai ardaloedd, gall swyddi yn

y sector cyhoeddus, yn enwedig drwy lywodraeth leol, wneud cyfraniad anghymesur i economïau ac amodau marchnadoedd lleol. Fodd bynnag, yr her yn hyn o beth yw bod y sector preifat yn dal yn rhy fach, a rhaid ei annog i dyfu mewn ffordd sy'n gwneud ein heconomi yn fwy cynaliadwy a chadarn.

Nid yw tynnu sylw at y cyd-destun ehangach hwn yn golygu y dylid llaesu dwylo, ond mae'n bwysig er mwyn deall economi Cymru a llunio barn gyffredin a chytbwys ynghylch ei pherfformiad.

Rôl llywodraeth yn yr economi

Rydym yn uchelgeisiol ynghylch economi Cymru, ond mae angen i ni fod yn realistig ynghylch ein rôl ni ynddi. Fel llywodraeth, nid oes gennym gyfrifoldeb dros y ffactorau macro economaidd ehangach sy'n dylanwadu ar yr economi. Yn yr ystyr hwnnw mae ein rôl yn gyfyngedig oherwydd caiff fframwaith llywodraethol economi Cymru ei bennu ar lefelau gwahanol er enghraifft yr Undeb Ewropeaidd (rheoleiddio'r farchnad sengl a rheoleiddio amgylcheddol), a'r Deyrnas Unedig (rheoleiddio trethiant a chyfleustodau). Rydym yn canolbwyntio ar y meysydd y gallwn ni a'n partneriaid effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Cydnabyddwn y rôl rymus sydd gan farchnadoedd a chystadleuaeth i'w chwarae o ran sicrhau bod adnoddau'n llifo i'r cwmnïau mwyaf arloesol a gaiff eu rheoli orau sy'n llwyddo i ddiwallu anghenion cwsmeriaid. Mae'n gwneud synnwyr felly y dylwn ystyried ein hymyriadau ar lefel cwmnïau unigol yn ofalus. Gall rhoi cymorth i un cwmni roi ei gystadleuwyr o dan anfantais neu roi hwb i gwmni presennol a ddylai fethu fel arall a chreu lle i fusnesau newydd.

Ni ddylwn geisio dyfalu symudiadau marchnadoedd ar lefel busnesau unigol ac felly byddwn yn lleihau ein cymorth

uniongyrchol i fusnesau yn sylweddol. Fodd bynnag, mae gan lywodraethau rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cefnogi menter drwy lunio'r amgylchedd y mae busnesau'n cystadlu ynddo, darparu seilwaith rhwydwaith, datblygu sgiliau a chefnogi gwaith ymchwil a datblygu.

Mae angen i ni gadarnhau ble rydym o'r farn y gall, ac na all, llywodraeth chwarae rôl yn yr economi. Caiff ein camau gweithredu eu llywio gan y cysyniadau economaidd canlynol:

- **Sefydlu marchnadoedd** – Mae llywodraethau yn ymyrryd mewn marchnadoedd drwy gyfraith contract a hawliau eiddo, deddfwriaeth diogelu defnyddwyr a masnachu teg, safonau iechyd a diogelwch, rheoliadau amgylcheddol a dyrannu tir drwy ganiatâd cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o'r ymyriadau hyn yn hanfodol ac yn creu marchnadoedd i bob pwrpas drwy sefydlu system o reolau ac amodau cyson ar gyfer y sawl sy'n cymryd rhan mewn marchnadoedd.
- **Mynd i'r afael â methiannau mewn marchnadoedd** – Mae marchnadoedd yn methu o ganlyniad i ddiffygion yn y ffordd y maent yn gweithredu i ddyrannu adnoddau, ac nid yn sgîl methiant grymoedd marchnad i gyflawni canlyniad penodol sy'n ddymunol, a gall achosion o'r fath ddirydd o dan amrywiaeth o amgylchiadau lle nad oes gan fusnesau ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniadau, lle na allant gydweithio'n hawdd, neu lle na allant wneud elw o'u buddsoddiad gan fod y manteision yn berthnasol i gymdeithas ehangach.
- **Cyflawni amcanion cydraddoldeb** – Mae llywodraethau yn awyddus i gyfyngu ar anghydraddoldebau mewn cymdeithas am sawl rheswm, er enghraifft, mynd i'r afael â thlodi,

hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, gwella iechyd, lleihau trosedd neu amddiffyn plant neu grwpiau sy'n agored i niwed.

Byddwn yn effro i ganlyniadau anfwriadol a all godi yn sgîl ymyrryd mewn marchnadoedd ac yn cydnabod y gall llywodraeth fethu dyrannu adnoddau yn effeithlon hefyd. Byddwn yn atgyfnerthu ein proses arfarnu polisiau i sicrhau bod rhesymeg gadarn dros ymyrryd, gyda thystiolaeth ategol dda ac ein bod yn ymyrryd mewn modd cymesur, gan asesu canlyniadau negyddol posibl.

Gweithio mewn modd effeithlon ac effeithiol

Yn ein gwaith i adnewyddu'r economi, byddwn yn gweithio mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- **Eglurder** – byddwn yn egluro pam ein bod yn ymyrryd a sut
- **Ychwanegu gwerth** – byddwn yn nodi pa weithgareddau sy'n debygol o gael y budd mwyaf o gymorth gan y llywodraeth
- **Symplrwydd** – byddwn yn ei gwneud mor syml â phosibl i weithio gyda ni
- **Effeithlonrwydd** – byddwn yn sicrhau gwerth am arian (yn yr ystyr ehangaf) er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau o'n buddsoddiad
- **Partneriaeth** – byddwn yn datblygu mwy o ddealltwriaeth ar y cyd o'n rôl, rolau cyrff eraill ac yn ymgysylltu'n gynnar wrth bennu polisiau
- **Gwahaniaethau rhanbarthol a lleol** – byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn y rhanbarthau i ddiwallu eu hanghenion penodol fel rhan o'n blaenoriaethau cenedlaethol

- **Datblygu cynaliadwy** – bydd ein polisiau a'n rhaglenni yn seiliedig ar ein prif egwyddor drefniadol
- **Cydraddoldeb** – byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu ein polisiau ar sail dealltwriaeth ynglŷn â sut y gallent roi unrhyw grŵp (grwpiau) penodol mewn cymdeithas o dan anfantais annheg neu gael effaith annheg arno (arnynt).

3. Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon

Mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru er mwyn cynnal twf economaidd a lles ein pobl. Mae angen cysylltiadau da ar ein pobl, ein busnesau a'n cymunedau o fewn Cymru a thu hwnt, ac mae angen iddynt allu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau cywir yn y lleoedd lle maent yn byw ac yn gweithio. Rhaid i fuddsoddwyr a busnesau cynhenid allu dibynnu ar gysylltiadau, trafnidiaeth, ynni ac unrhyw seilwaith arall sydd ei angen ar fenter yn yr 21ain ganrif.

I'r Llywodraeth, mae'r rôl hon yn bwysicach na helpu busnesau unigol – ac mae'n rhywbeth na all busnesau, yn unigol nac ar y cyd, ei wneud ar eu pen eu hunain.

O ran adnewyddu'r economi, mae angen i ni:

- sicrhau bod Band Eang y Genhedlaeth Nesaf ar gael ymhob rhan o Gymru
- integreiddio'r ffyrdd rydym yn cynllunio ac yn darparu ein buddsoddiad mewn seilwaith
- mabwysiadu dull mwy strategol o reoli tir a safleoedd busnes
- newid i economi carbon isel â lefelau isel o wastraff sy'n defnyddio llai o adnoddau.

Cyd-destun

Rydym yn wynebu heriau penodol a hirsefydlog mewn perthynas â seilwaith yng Nghymru, yn enwedig daearyddiaeth a dosbarthiad poblogaeth. Mae'r heriau hyn yn effeithio ar ein rhwydweithiau i gyd, gan gynnwys hyd yn oed newidiadau technoleg cymharol ddiweddar fel y newid i ddarlledu teledu a radio digidol. Fel gweddill y byd, rydym yn wynebu'r her fodern – a'r cyfle – o newid i economi carbon isel â lefelau isel o wastraff sy'n defnyddio llai o adnoddau. Mae'n galw am sawl math o newid mewn ymddygiad, yn amrywio o newidiadau moddol mewn trafndiaeth, i ddefnyddio TGCh er mwyn lleihau'r angen i deithio, i ffyrdd newydd o gynhyrchu ynni, a defnyddio adnoddau yn gyfrifol.

Mae tystiolaeth yn dangos y rôl bwysig sydd gan seilwaith da i'w chwarae yn yr economi, ac mae llawer o enghreifftiau i'w gweld, wrth i wledydd addasu i amodau byd-eang newydd a hefyd o'r gorffennol, o wledydd yn buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith er mwyn gwella cystdleurwydd eu heconomïau (*How infrastructure investments support the U.S. economy: employment, productivity and growth*, PERI). Yn yr un modd, mae seilwaith gwael yn gost wirioneddol ac, o bosibl, sylweddol.

Mae seilwaith yn helpu pobl i gael gwaith, yn cynyddu grymoedd cystadleuaeth, yn hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd, ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o gydleoli a chlystyru (*Going for Growth*, OECD, ac

Understanding productivity variations between Wales and the rest of the UK, Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Dangoswyd bod buddsoddiadau mewn seilwaith TGCh yn benodol, fel band eang, yn hyrwyddo mwy o ddefnydd o dechnolegau newydd y gwelwyd eu bod yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyfraddau twf economaidd (*Productivity and ICT: a review of the evidence, CEP, a The impact of broadband on growth and productivity, CE*). Er bod manteision trawsffurfiol gwelliannau yn y seilwaith trafndiaeth yn tueddu i fod amlycaf yng nghamau cynnar datblygiad economaidd gwlad, mae tystiolaeth glir i ddangos y gall gwelliannau mewn trafndiaeth arwain at fanteision economaidd sylweddol hyd yn oed mewn economïau datblygedig (*The Eddington Transport Study, a The Economic effects of transport infrastructure improvements: roads, Llywodraeth Cynulliad Cymru*).

Rydym eisoes yn chwarae rôl sylweddol yn y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw seilwaith. Fodd bynnag, rydym wedi cael neges gref gan ein rhanddeiliaid nad ydym yn pwysleisio hyn ddigon. Mae angen i ni ehangu ein rôl, a rhoi mwy o bwys ar ein seilwaith o ran buddsoddi, cynllunio a rheoleiddio.

Mae seilwaith yn ymwneud yn rhannol â rhwydweithiau: symud pethau o gwmpas Cymru – pobl, nwyddau, gwybodaeth, ynni, dŵr – at y bobl a'r busnesau sydd eu hangen. Ni all pobl weithio os nad oes cysylltiadau ganddynt â'u swyddi, hyfforddiant a gwasanaethau cyhoeddus. Ni all busnesau weithredu os na allant ddefnyddio'r gweithlu, deunyddiau, gwasanaethau proffesiynol a marchnadoedd. At hynny, mae cysylltiadau cyflymach – rhai ffisegol (fel gwasanaeth rheilffordd cyflym, a rhwydwaith ffyrdd effeithlon a dibynadwy) ac electronig (fel band eang

y genhedlaeth nesaf a rhwydweithiau telathrebu symudol 3G+) – yn cynyddu cynhyrchiant am eu bod yn arbed amser ac felly'n lleihau costau. Maent hefyd yn angenrheidiol er mwyn creu'r amodau cywir i alluogi busnesau i ymsefydlu a ffynnu. Mae a wnelo seilwaith hefyd â sicrhau y gall pobl a busnesau fod yn y fan lle maent am fod – h.y. bod ganddynt y tai neu'r safleoedd cywir, mewn lleoedd deniadol o safon sydd â'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys ysbytai ac ysgolion. Mae hyn yn cynnwys darparu dŵr, bwyd, amddiffynfeydd rhag llifogydd a gwasanaethau naturiol eraill rydym i gyd yn dibynnu arnynt.

Mynd i gyfeiriad newydd i adnewyddu'r economi

Byddwn yn buddsoddi adnoddau ychwanegol i wella ein seilwaith sylfaenol. Bydd hyn yn cynnwys ailgyfeirio cronfeydd o raglenni presennol yn ogystal â gwerthu mwy o'n portffolio tir ac eiddo. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein galluogi'n well i wneud busnesau yn fwy cystadleuol a gwella symudedd y farchnad lafur.

Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn geffyl blaen yn yr economi ddigidol **trwy fuddsoddi yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf**.

Byddwn yn gwneud hynny trwy gydweithio yn agos â chwaraewyr y farchnad TGCh. Rydym yn disgwyl y caiff pob busnes yng Nghymru fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn canol 2016 ac y caiff pob aelwyd fynediad erbyn 2020. Mae hyn yn gynt na tharged yr UE o sicrhau y bydd holl boblogaeth yr EU yn gallu cael mynediad i fand eang 30Mbps erbyn 2020 gyda thros hanner yn gallu elwa ar gyflymder o 100Mbps erbyn y dyddiad hwnnw.

Mae arnom angen ymarfer caffael llawn a chymeradwyaeth ar ffurf Cymorth

Gwladwriaethol i gyflawni'r nod hwn. Y camau nesaf fydd ymgysylltu yn gyflym â'r farchnad yn ystod haf a hydref 2010 ac wedyn mynd ati i gynnal ymarfer caffael llawn erbyn gwanwyn 2011.

Y dull a ddefnyddiwn yw annog y farchnad TGCh i yrru ei buddsoddiad ei hun ymlaen mewn ardaloedd lle bo achos masnachol cryf dros wneud hynny, a byddwn yn buddsoddi ein harian ein hunain i gyflymu'r defnydd o seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf mewn ardaloedd lle bo gwir angen i'r llywodraeth ymyrryd. Bydd y dull "tynnu a gwthio" hwn yn ffordd o fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd buddsoddi ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat gan gyflymu'r broses o gyflawni ein canlyniadau polisi.

Byddwn yn defnyddio'r flwyddyn nesaf i baratoi'n drylwyr er mwyn i ni allu ymateb yn gyflym ac yn effeithlon pan fydd y caniatâd angenrheidiol wedi'i roi mewn perthynas â chaffael a Chymorth Gwladwriaethol.

Mae hwn yn mynd i fod yn gontract caffael cyhoeddus o bwys ac rydym yn bwriadu ei ariannu trwy ailddyrrannu cyllidebau sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys elw yn sgil gwerthu eiddo), o arian yr UE ac o gyfraniadau arian cyfatebol gan y sector TGCh.

Byddwn hefyd yn **gwella'r gwasanaeth band eang i gartrefi a'r sector cyhoeddus** drwy barhau i fuddsoddi mewn Cymorth Band Eang Arloesol Rhanbarthol (sy'n ymdrin â mannau gwan ar gyfer derbyn band eang), Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a FibreSpeed.

Cydnabyddwn hefyd y cyfleoedd a ddaw yn sgîl y seilwaith teleffoni symudol yng Nghymru. Mae'r diwydiant ffonau symudol wedi newid o gefnogi traffig galwadau ail genhedlaeth i draffig amlgyfrwng trydedd cenhedlaeth, i

gefnogi band eang symudol llawn. Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r cyfryngau a chynnwys arall drwy'r dulliau hyn. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol, Ofcom a busnesau ledled Cymru i **wella'r gwasanaeth ffonau symudol** lle mae'r angen mwyaf a sicrhau nad ydym yn cael ein gadael ar ôl gan ddatblygiadau technolegol.

Bydd *Cyflenwi Cymru Ddigidol* yn adlewyrchu pwysigrwydd cysylltiadau digidol i economi Cymru ac yn ceisio cyflawni'r buddiannau y mae technolegau digidol yn eu cynnig i les dinasyddion Cymru a thwf economaidd.

Integreiddio gwaith cynllunio a darparu seilwaith

O gofio pwysigrwydd seilwaith o safon i dwf hirdymor yr economi, mae angen i ni gynllunio a darparu ein buddsoddiad mewn seilwaith mewn ffordd ystyrlon a chydlynol ar draws y Llywodraeth. Bydd angen i ni sicrhau bod ein cynlluniau buddsoddi yn ymateb i amodau marchnad gwahanol a chyfleoedd sy'n datblygu ymhob rhan o Gymru.

Byddwn yn **dwyn ynghyd ein cynlluniau seilwaith a buddsoddi strategol** er mwyn sicrhau cymaint o fuddiannau â phosibl o ran canlyniadau a chyflawni arbedion maint yn ein buddsoddiad. Bydd hyn yn cynnwys trafndiaeth, TGCh, ynni, gwastraff, dŵr a charthffosiaeth, tai, gwasanaethau ieuchyd, adfywio ac eiddo busnes. Lle y bo'n briodol, byddwn yn ceisio cysoni ein cynlluniau â chynlluniau cwmnïau cyfleustodau a chwmnïau mawr yn y sector preifat.

Cynllun Seilwaith Strategol statudol i Gymru

Cynllun seilwaith â sail statudol, sy'n adeiladu ar Gynllun Gofodol Cymru, a allai lywio penderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio a

chyrff sy'n gyfrifol am gynllunio seilwaith cenedlaethol y DU. Erbyn mis Rhagfyr 2010, byddwn yn ystyried yr opsiwn o ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i ddatblygu **Cynllun Seilwaith Strategol i Gymru**.

Mae gwella gwaith cynllunio a darparu seilwaith yn galw am ystod eang o arbenigedd a sgiliau technegol (gan gynnwys peirianwyr, syrfewyr, cynllunwyr, ac arbenigwyr ariannol a chaffael). I wneud y defnydd gorau o'u sgiliau byddwn yn dwyn ein harbenigwyr ynghyd i greu **Grŵp Seilwaith DE&T newydd** erbyn mis Tachwedd 2010.

Bydd y Grŵp newydd yn gyfrifol am sicrhau mwy o werth am arian drwy ddulliau cynllunio mwy cydlynol, a thrwy ddulliau craffach o ran dylunio, caffael a rheoli rhaglenni a phrosiectau. Bydd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu mathau gwahanol a newydd o gyllid a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

Safleoedd Busnes a Rheoli Tir yn Strategol

Yn y 1970au a'r 1980au bu rhaglenni mawr i adfer hen safleoedd cloddio a diwydiant trwm ac adeiladu unedau ffatri modern yn eu lle. Yn ddiweddarach, gwelwyd mwy o gydweithio a rhannu risg gyda'r sector preifat er mwyn cyflwyno safleoedd ac adeiladau.

Fodd bynnag, mae marchnadoedd tir ac eiddo masnachol yng Nghymru yn amrywio'n fawr fesul ardal. Ceir ardaloedd lle ceir lefelau uchel o alw a lle mae'r farchnad yn darparu eiddo fforddiadwy i'w ateb; mewn ardaloedd eraill ceir llai o alw ac nid yw'r farchnad eiddo leol wedi datblygu'n ddigonol ac felly nid yw'n darparu'r math o eiddo sydd ei angen ar werthoedd y gall y farchnad eu cynnal. Dim ond mewn achosion lle ceir methiant amlwg yn y farchnad y byddwn yn ymyrryd.

Byddwn yn **adolygu ein daliadau tir** er mwyn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd sy'n gyson ag amcanion ehangach o ran adnewyddu'r economi, blaenoriaethau rhanbarthol penodol ac anghenion sectorau allweddol. Byddwn yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio gwerth asedau nad oes eu hangen arnom mwyach ac ailgyfeirio'r gwerth hwn i amcanion eraill, yn enwedig y seilwaith digidol.

Byddwn yn datblygu ein dull o weithredu mewn perthynas â **safleoedd busnes** er mwyn gweithio gyda'r farchnad ledled Cymru. Mewn ardaloedd lle ceir galw uchel yn y farchnad, byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth yn hytrach nag arian ac yn cymryd rhan mewn cydfentrau lle bo angen. Mewn ardaloedd lle nad oes gan y farchnad lawer i'w gynnig, byddwn yn darparu cyfuniad o arian pontio (i'r datblygwr) a darpariaeth uniongyrchol. Fel rhan o'r dull hwn o weithredu byddwn yn defnyddio **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio JESSICA** (a gefnogir gan arian Ewropeaidd) i hyrwyddo adfywio ffisegol ledled Cymru.

Ynni ac effeithlonrwydd ynni

Mae Strategaeth Ynni Cymru, *Chwyldro Carbon Isel* yn nodi ein dull cyffredinol o weithredu mewn perthynas ag ynni yng Nghymru, gan gydnabod rôl y sector preifat, rheoleiddiwr y farchnad, y gridiau nwy a thrydan cenedlaethol a rôl Llywodraeth y DU o ran seilwaith a chynllunio prosiectau mawr.

Er bod cael cyflenwad ynni diogel, carbon isel yn hollbwysig, bydd ein heffeithlonrwydd neu'n cynhyrchiant wrth ddefnyddio ynni yn cyfrannu at berfformiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae ein strategaeth ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar dair prif golofn:

- **Sefydlu marchnadoedd** – cydgysylltu buddsoddiad i mewn i Gymru, a sicrhau bod prosesau caffael yn dod â gwir fanteision i economi Cymru.
- **Datblygu'r gadwyn gyflenwi** – gwella ein sylfaen sgiliau, cryfhau ein cadwyn gyflenwi, a gweithio gyda'r Sefydliad Ymchwil Carbon Isel i ddatblygu gallu ac adnoddau ymchwil Cymru;
- **Ymgysylltu â diwydiant** – broceru telerau gyda diwydiant ar gyfleoedd penodol fel Tariffau Cyflenwi Trydan a Datblygiadau Tai Carbon Isel, broceru cydberthnasau rhwng gweithgynhyrchwyr a gosodwyr, a gweithio gyda'r sector yng Nghymru i sefydlu cyfres o gynhyrchion ariannol, gwarantau a phrosesau sicrhau ansawdd.

Mae'n debygol y buddsoddir tua £1 biliwn ym mherfformiad ynni cartrefi Cymru dros y degawd nesaf, gan gynnwys: arbed (Rhaglen Buddsoddi Strategol Mewn Perfformiad Ynni), arian Ewropeaidd; y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref; Safon Ansawdd Tai Cymru; offerynnau ariannol; rhwymedigaethau statudol ar gwmnïau ynni; a newidiadau rheoleiddiol a phrisio yn y DU.

Byddwn yn creu **dull Cymru gyfan o weithredu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni** o dan faner arbed. Byddwn yn sefydlu tîm trawsadrannol pwrpasol i gryfhau'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru ac yn cyhoeddi strategaeth rhaglen fer i ymhelaethu ar y tair colofn hyn.

Helpu i adnewyddu'r economi drwy weithgareddau presennol

Yn ogystal â blaenoriaethau newydd o ran adnewyddu'r economi, rydym eisoes yn ymgymryd â datblygiadau mawr mewn seilwaith:

- Mae'r *Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol* yn nodi sut y gellir lleihau allyriadau carbon trafndiaeth, gan sicrhau ar yr un pryd y gall barhau i gefnogi dabtlygiad economaidd cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol.
- Mae Strategaeth Ynni Cymru *Chwyldro Carbon Isel* yn amlinellu ein nod o ddefnyddio dulliau adnewyddadwy i gynhyrchu hyd at ddwywaith cymaint o drydan bob blwyddyn erbyn 2025 nag a ddefnyddiwn heddiw. Buddsoddir yn sylweddol ledled Cymru mewn canolfannau ynni newydd a chyfleusterau trawsyrru i gysylltu datblygiadau newydd â'r grid.
- Mae *Tuag At Ddyfodol Diwastraff* yn nodi cynigion ar gyfer cyrraedd targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.
- Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol yn ddiweddarach eleni.
- Mae adolygiad cyfnodol y Rheoleiddiwr Dŵr yn 2009 yn sefydlu rhaglen sylweddol i fuddsoddi mewn ansawdd dŵr a pherfformiad amgylcheddol.

4. Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes

Mae angen i ni ddatblygu amodau sydd nid yn unig yn galluogi, ond yn helpu, pobl a busnesau i ffynnu mewn modd cynaliadwy – drwy fanteisio i'r eithaf ar ein hasedau a chael cydbwysedd cywir rhwng amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae Cymru yn lle gwych i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac yn lle gwych hefyd i ymweld ag ef – ond gall fod hyd yn oed yn well. Mae datblygu delwedd ac enw da Cymru fel lle deniadol i wneud busnes ynddo yn hollbwysig.

O ran adnewyddu'r economi, mae angen i ni:

- werthu ein hunain a'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig
- creu system gynllunio sy'n fwy ymatebol
- sicrhau y caiff effaith rheoleiddio ar fusnesau ei hystyried
- sicrhau bod caffael yn y sector cyhoeddus yn haws
- gwella iechyd y boblogaeth oedran gweithio.

Cyd-destun

Mae Cymru yn wlad sydd â chyfoeth o asedau naturiol a diwylliannol y mae angen i ni eu dathlu a'u hyrwyddo. Mae harddwch naturiol cefn gwlad ac arfordir Cymru, ei hymdeimlad cryf o gymuned, a'i threftadaeth unigryw a'i hiaith i gyd yn golygu y gall bortreadu ei hun fel cenedl unigryw ac amrywiol sy'n darparu ansawdd bywyd da i'r rhai sy'n dewis gweithio, byw, gwneud busnes a buddsoddi yma.

Dengys tystiolaeth y gall amodau busnes ffafriol helpu i hyrwyddo twf economaidd (gweler *Going for Growth*, OECD). Amodau busnes yw un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ble i leoli busnesau, yn enwedig yn achos busnesau rhyngwladol, ond maent hefyd yn debygol o fod yn bwysig o ran sicrhau bod busnesau'n cael eu sefydlu a'u bod yn goroesi ac yn tyfu.

Gall amodau ffafriol helpu i gadw costau busnes yn isel, drwy leihau'r gost o wneud busnes yn uniongyrchol a thrwy hyrwyddo cystadleuaeth. Nodwyd bod lleihau'r baich rheoleiddio yn benodol yn ffactor allweddol o ran ysgogi twf busnes a thwf economaidd (gweler *Regulation and growth*, Banc y Byd, yn ogystal â thystiolaeth ehangach fel *Global Competitiveness Report*, Fforwm Economaidd y Byd, ac *Ease of doing business index*, Banc y Byd).

Yn ogystal â darparu ein seilwaith ffisegol, mae angen i ni sicrhau ein bod yn rheoli ein tir a'n dŵr fel y gallwn wneud y defnydd gorau posibl o'r adnodd cyfyngedig hwn a sicrhau ein bod yn darparu buddiannau i'r cyhoedd drwy ei reoli. Tir Cymru yw ein sylfaen orau o adnoddau. Os na fyddwn yn ei reoli'n dda, byddwn yn gwneud Cymru yn lle llai deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo, a byddwn hefyd yn codi costau

yn sgîl cynnydd yn y perygl o lifogydd a phrinder dŵr, er enghraifft.

Mae deniadol hefyd yn golygu ei gwneud yn haws i bobl wneud busnes. Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, rhaid i fusnesau yng Nghymru allu buddsoddi mewn datblygiadau newydd yn effeithlon ac yn amserol. Y llywodraeth sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer y datblygiadau newydd hyn, a rhaid iddi sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn hwyluso penderfyniadau effeithiol ac osgoi cyflwyno costau oni bai y gellir eu cyfiawnhau ar sail eu buddiannau i'r gymdeithas i gyd. Defnyddir y system gynllunio i ddyfarnu rhwng gwahanol fathau o ddefnydd cystadleuol ar gyfer tir a gweithredu polisiâu economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol – nid yw'n pennu'r polisiâu hyn ei hun.

Y system rheoli datblygu yw asgwrn cefn y system gynllunio a'r system hon y mae busnesau yn fwyaf tebygol o ddod ar ei thraws yn ystod y broses gynllunio. Rhaid i'r system rheoli datblygu fod yn gymesur ac yn effeithlon, gan ddarparu penderfyniadau amserol sy'n agored, yn deg, yn gyson ac yn dryloyw.

Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i reoliadau eraill hefyd. Er nad yw polisiâu cyffredinol ar reoleiddio busnes wedi'u datganoli, nodwn yr ymrwymïadau a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ddiweddar.

Gallwn hefyd wneud Cymru yn fwy deniadol i fusnesau drwy sicrhau y gallant gaffael yn y sector cyhoeddus. Rydym yn rheoli gwerth £16 biliwn (2010-11) o wariant yng Nghymru, sy'n swm sylweddol o gymharu â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) Cymru o £46 biliwn. Mae gwariant cyfalaf yn cyfateb i tua £1.7 biliwn, gan gynnwys trafniadaeth, tai, amddiffynfeydd rhag llifogydd a rhaglenni adeiladau ym maes

iechyd ac addysg, er enghraifft. Daw rhagor o arian o'r Undeb Ewropeaidd sy'n dod o dan ddylanwad polisiâu a blaenoriaethau Cymru, er enghraifft y Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfeydd Strwythurol.

Mae gwariant helaeth yn y sector cyhoeddus, ar wahân i fuddsoddiad cyfalaf, hefyd yn cael effaith fawr ar yr economi. Mae gwariant ar y GIG yn cyfrif am dros £5 biliwn, sy'n creu rhyw 100,000 o swyddi'n uniongyrchol a mwy eto drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir ganddo a gwariant ei gyflogeion. At hynny, mae gwasanaethau fel y GIG a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd â'r ymdrechion ehangach i wella iechyd, yn fuddsoddiad sylweddol mewn cyfalaf dynol a photensial yn y dyfodol. Pe byddai'r buddsoddiad yn llai, byddai'r straen i'w weld mewn ffyrdd eraill – o ran ychwanegu at faich gofalfwyr, ac ychwanegu at y baich o broblemau iechyd hirdymor. Mae'r gwasanaethau hyn yn fwy na chost i'r cyhoedd, maent yn darparu budd cymdeithasol parhaus, gydag effaith luosi sylweddol yn yr economi.

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol mae'n bwysig bod y sector cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd caffael i fusnesau lleol llai o faint. Ni all y sector cyhoeddus ddangos ffafriaeth i BBACHau yng Nghymru wrth ddyfarnu contractau, ac ni ddylai roi'r argraff nad yw Cymru yn croesawu cwmnïau dros y ffin. Ond gallwn geisio gwneud y broses mor deg ac effeithlon â phosibl fel bod busnesau yng Nghymru yn cael cyfle teg i ennill contractau yn gystadleuol. Mae angen i'r sector cyhoeddus gael gwerth am arian ar gyfer ei gontractau, ond mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn cael y cyfle i ddarparu'r hyn sydd ei angen arnom.

Mae sector cyhoeddus Cymru yn ei gyfanrwydd yn prynu nwyddau a gwasanaethau gwerth hyd at £5 biliwn bob blwyddyn. Caiff ychydig dros hanner y swm hwnnw ei wario gan awdurdodau lleol ac ychydig o dan draean gan y GIG. Gall gwariant cyfalaf ar ddatblygiadau newydd, caffael gwasanaethau ac ymchwil a datblygu gael effaith uniongyrchol ar dwf economaidd. Ni all pob cyflenwr fod yn llwyddiannus bob tro – dyna natur marchnad gystadleuol – ond gall mwy o fusnesau yng Nghymru gystadlu am fwy o waith yn gyffredinol.

Mae twristiaeth, chwaraeon, y celfyddydau a'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn cael effaith uniongyrchol fel sectorau bywiog yn yr economi sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i GYC ac yn cynnal nifer uchel o swyddi ledled Cymru. Mae ein gallu i gynnal digwyddiadau mawr a phwysig – boed yn ddiwyddiadau chwaraeon neu ddiwylliannol – yn hollbwysig er mwyn gwella ein proffil rhyngwladol a'n henw da yn ogystal â denu nifer fawr o ymwelwyr.

Mae ein proffil rhyngwladol yn hollbwysig. Heddiw, rhaid i Gymru gystadlu â phob lleoliad arall am ein cyfran o drafodion masnachol, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol y byd. Mae'r marchnadoedd rydym yn cystadlu ynddynt yn tyfu'n fwyfwy bydeang ac maent yn orlawn – mae angen hunaniaeth gystadleuol unigryw arnom.

Mae hunaniaeth gystadleuol cenedl wedi'i seilio ar gymysgedd cymhleth o brofiadau, canfyddiadau a chysylltiadau a ffurfir yn aml dros gyfnod hir. Gall cenedloedd ag enw da a delwedd gadarnhaol ychwanegu gwerth at y nwyddau, y cynhyrchion, y gwasanaethau a'r cwmnïau sy'n gysylltiedig â'r wlad honno – sef yr hyn a elwir yn "bremiwm hunaniaeth".

Awgryma gwaith ymchwil a phrofiad nad yw Cymru wedi cael budd o breimiwm hunaniaeth yn y gorffennol. Yn rhyngwladol, gwelwyd anwybodaeth ynghylch Cymru yn gyffredinol ac nid yw wedi cael delwedd gadarnhaol bob amser. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gynyddol i ddangos bod pobl yn chwilio am rywbeth mwy dilys ac unigryw. Mae gan Gymru lawer o nodweddion unigryw, a'r pennaf yn eu plith yw ei hamrywiaeth daearyddol o gofio ei harwynebedd cymharol fach, a'i diwylliant trawiadol.

Mynd i gyfeiriad newydd i adnewyddu'r economi

Mae angen i ni werthu Cymru yn well fel lle gwych i fyw a buddsoddi ynddo. Ond ochr yn ochr â hyn, mae angen i ni hefyd sicrhau bod Cymru yn gwireddu ein huchelgeisiau fel gwlad lle mae'n hawdd gwneud busnes.

Hyrwyddo'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig yn well

Mae delwedd ac enw da Cymru yn ddylanwad pwysig ar yr amgylchedd busnes yng Nghymru ac yn adlewyrchiad pwysig ohono hefyd. Mae angen i ni godi pwysigrwydd hunaniaeth gystadleuol Cymru ac ailfywiogi brand Cymru er mwyn tynnu sylw at ein llwyddiannau a mynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau negyddol o Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd Llundain fel lleoliad allweddol o ran llunio barn.

Yn arbennig, mae angen i ni ddatblygu naratif cliriach i gyd-fynd â'r cynnig busnes. Hynny yw, mae angen i ni adroddi stori Cymru yn well. Mae angen i ni hefyd ddatblygu dull cydlynol o ymgysylltu'n rhyngwladol sy'n dwyn ynghyd werthiannau i fusnesau, trafodaethau â sefydliadau Ewropeaidd, partneriaethau Addysg Uwch, a chydb berthnasau diplomatig eraill. Nid yw brand Busnes

Rhyngwladol Cymru yn un cryf ac ni chaiff ei adnabod yn rhyngwladol – fel y canfu adroddiad Massey – ac felly ni chaiff ei ddefnyddio mwyach. Yn y dyfodol bydd brandiau sefydliadol yn adlewyrchu'r ffaith mai **brand Cymru fydd ffocws y marchnata**. Byddwn yn datblygu brand Cymru, yn benodol mewn perthynas â'r cynnig busnes, i dynnu sylw at y llwyddiannau sy'n sail i'n cynnig a goresgyn unrhyw ganfyddiadau negyddol o Gymru.

Cynllunio ac adnewyddu'r economi

Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, rhaid i fusnesau yng Nghymru allu buddsoddi mewn datblygiadau newydd yn effeithlon ac yn amserol. Mae gan lywodraeth genedlaethol a lleol ac asiantaethau sector cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae drwy ddarparu'r fframwaith gorau posibl ar gyfer datblygu mewn modd cynaliadwy. Rhaid i'r system gynllunio gydbwyso amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a thrwy wneud hynny, hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Byddwn yn gwneud y gwelliannau canlynol i bolisi cynllunio a'r system gynllunio er mwyn adnewyddu'r economi:

Gwella'r broses ceisiadau cynllunio

Yn dilyn ceisiadau gan y gymuned fusnes yn yr Uwchgynhadledd Economaidd gyntaf, gwnaethom gomisiynu ymchwil ar wella'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Byddwn yn datblygu argymhellion yr ymchwil drwy becyn o ddiwygiadau i'r broses gynllunio a fydd yn:

- **gwella canllawiau** gan graffu yn ofalus ar newidiadau i'r system
- **ysgogi newid yn y diwylliant cynllunio** drwy adnewyddu'r dull sylfaenol o weithredu mewn perthynas â datblygu a rheoli datblygu; archwilio'r broses ymgynghori; a gwella'r ffordd y caiff y broses ceisiadau ei gweinyddu

- **gwella'r ffordd y caiff y system ei gweithredu** er mwyn ei gwneud yn fwy cyson, yn fwy cymesur ac yn fwy effeithiol: er enghraifft, gwneud defnydd gwell o dechnoleg newydd trwy leihau nifer y ceisiadau; gwella'r cyngor a'r gweithdrefnau cyn ymgeisio a sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu manteisio ar arbenigedd technegol.

Adolygu polisi cynllunio ar gyfer datblygu'r economi

Amlinellir y polisi cynllunio ar gyfer datblygu'r economi ym Mholisi Cynllunio Cymru. Yn ogystal â'r pecyn o welliannau i'r broses a amlinellir uchod, rydym wedi dechrau adolygu *polisi* cynllunio ar gyfer datblygu'r economi, er mwyn:

- Gwerthuso a yw Polisi Cynllunio Cymru wedi cyflawni ein polisi datblygu economaidd
- Ystyried sut y gall y system gynllunio helpu i adnewyddu'r economi yng Nghymru
- Cynnig opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru.

Byddwn yn ystyried argymhellion ar gyfer newidiadau i bolisi cynllunio a chanllawiau ar ddatblygu economaidd. I ategu'r gwaith hwn, byddwn yn ffurfio grŵp cynghori rhanddeiliaid ac yn ceisio cael cynrychiolaeth gan randdeiliaid o faes busnes ac ymgysylltu â hwy.

Cryfhau'r gydberthynas rhwng cynllunio a datblygu economaidd

Mae'r gydberthynas rhwng y gyfundrefn gynllunio a datblygu economaidd yn hollbwysig ac rydym wedi ymrwymo i'w chryfhau. Byddwn yn sicrhau bod polisi cynllunio datblygu economaidd yn gyson â'n cyfeiriad newydd ar gyfer adnewyddu'r economi drwy sicrhau bod Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn **darparu adnoddau** i gefnogi gwaith ein His-adran Gynllunio.

Rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein Fframwaith Amgylchedd Naturiol

Y Fframwaith Amgylchedd Naturiol newydd, a gaiff ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ddiweddarach eleni, fydd ein strategaeth ar ddefnyddio tir a dŵr er budd cymdeithas a byd natur. Bydd yn rhoi pwyslais a gwerth cadarnach ar 'wasanaethau ecosystemau', gan roi gwybodaeth well am flaenoriaethau o ran cadwraeth natur a gwybodaeth well i seilio penderfyniadau cynllunio arni.

Polisi a rheoleiddio gwell

Rydym wedi ymrwymo i'n prif egwyddor sefydliadol o ddatblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni roi pwys dyledus ar rôl yr economi fel un o'r tair colofn datblygu cynaliadwy.

Cydnabyddwn fod angen i ni wneud mwy i asesu effaith ein cynigion ar fusnesau, a bod yn rhaid i'r broses asesu roi her gadarnach i ni ynghylch effeithiau economaidd. Cydnabyddwn yr angen i ymgysylltu â busnesau yn gynnar yn y broses o lunio polisi, ymhell cyn bod y rheoliadau'n cael eu drafftio neu'r ddeddfwriaeth yn dod i rym. Wrth ymgysylltu â'r sector preifat, mae angen i ni nodi goblygiadau cysylltiedig posibl o ran adnoddau a rhoi gwybod amdanynt er mwyn galluogi'r sector i gynllunio ei waith ymgysylltu. Mae angen i ni hefyd wella ein prosesau yn barhaus er enghraifft, drwy nodi effaith gronol rheoliadau unigol a mynd i'r afael â hwy. Er mwyn datblygu'r agenda reoleiddiol hon, bydd mwy o angen dull cydlynol o weithredu yng Nghymru a ledled y DU.

Byddwn yn **gwella gwaith i gydgyssylltu ein prosesau** sy'n arwain at bolisiau, rheoliadau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar fusnesau; drwy ymgorffori darpariaethau Cynllun Busnes 2008 yn briodol a thrwy ddwyn ymarferwyr polisi ynghyd yn rheolaidd. Byddwn yn cynyddu ein hadnoddau o ran rheoleiddio gwell er

mwyn sefydlu pwyntiau cyswllt ar gyfer diwydiant a'i gynrychiolwyr, gan sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth yn hawdd ac y caiff ei rhannu'n eang.

Fel rhan o **adolygiad y Cwnsler Cyffredinol o brosesau deddfwriaethol**, byddwn yn sicrhau bod effeithiau ar fusnesau a'r economi yn cael eu hystyried ar gam cynnar wrth ddatblygu polisi ar gyfer deddfwriaeth.

Rheoliadau adeiladu carbon isel

Yn 2007, gwnaethom ddatgan ein huchelgais i adeiladau newydd yng Nghymru fod yn ddi-garbon a'n bwriad i gyflawni'r amcan hwn drwy reoliadau adeiladu.

Fodd bynnag, bu'r broses o ddatganoli rheoliadau adeiladu yn broses hir. Ni chaiff y newidiadau cyntaf i reoliadau adeiladu datganoledig eu gwneud tan o leiaf 2012. At hynny, bydd cyrraedd safonau uwch yn gosod mwy o gostau ar ddiwydiant sy'n delio ag effaith y dirwasgiad. Er bod arwyddion yn dangos bod adferiad ar waith, mae angen i ni fod yn effro i'r effeithiau posibl yn y byrdymor. Bydd costau safonau uwch yn syrthio ar y sector cyhoeddus hefyd, a bydd hyn yn arwain at oblygiadau yn sgîl cyllidebau buddsoddi llai.

Yng ngoleuni'r problemau hyn, rydym wedi nodi'r opsiwn i roi'r safonau uwch hyn ar waith ar ôl i bwerau gael eu trosglwyddo ym mis Rhagfyr 2011 sy'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng hanfod y polisi i weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r effaith a gaiff costau ar ddatblygu er enghraifft swyddi, cyflenwad tai a thai fforddiadwy.

Credwn fod y dull newydd ar gyfer rheoliadau adeiladu, sy'n golygu y byddwn ychydig ar y blaen i Loegr yn hyn o beth, yn lleihau'r risg, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i fusnesau Cymru achub y blaen a datblygu mantais gystadleuol

wirioneddol pan gaiff safonau tebyg eu cymhwyso mewn mannau eraill. Ategir y cyfleoedd hyn gan hyfforddiant a buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi. Bydd hyn o fudd i'r sector adeiladu; ond bydd cyfleoedd ar gael hefyd i ysgogi gallu ac adnoddau o ran datblygu a gweithgynhyrchu technoleg carbon isel yng Nghymru. Felly byddwn yn llunio **rheoliadau adeiladu** sy'n bodloni amcanion ein polisi carbon isel ac sydd o fudd i sectorau perthnasol yn yr economi.

Defnyddio caffael yn gyfrifol i hyrwyddo gwerth economaidd

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gwella dulliau caffael sector cyhoeddus yng Nghymru fel eu bod yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu BBACHau; yn sicrhau bod y sector cyhoeddus yn gweinyddu prosesau caffael mor agored a theg â phosibl; ac, yn cadw'r baich gweinyddol mor isel â phosibl i bawb dan sylw. Mae gwaith eisoes ar waith, er enghraifft, i hysbysebu cyfleoedd gwerth is yn ehangach, a lleihau'r defnydd o restrau cymeradwy sy'n cyfyngu ar gystadleuaeth.

Fodd bynnag, mae gennym fwy o waith i'w wneud. Er bod gwaith dadansoddi gwariant yn dangos y gwnaeth sector cyhoeddus Cymru brynu tua 50% o'i nwyddau a'i wasanaethau gan gyflenwyr yng Nghymru yn 2009, mae cyfle sylweddol o hyd i gyflenwyr yng Nghymru gystadlu'n llwyddiannus am fwy. Yn 2009 gwnaethom gomisiynu 'Ymchwil ar Rwystrau sy'n Atal Cyfleoedd Caffael', a nododd y dylem roi blaenoriaeth i wella tryloywder, safoni ac effeithlonrwydd prosesau cyngymhwyso drwy ddatblygu cwestiynau craidd cyffredin a chanllawiau.

Byddwn yn sefydlu **cronfa ddata ar-lein o wybodaeth cymhwyso cyflenwyr** ac yn defnyddio technoleg e-fusnes i leihau biwrocratiaeth i bob prynwr a chyflenwr, yn ogystal â gwella ansawdd y prosesau'n sylweddol.

Manteisiodd ein gwefannau GwerthwchiGymru a PrynwchiGymru ar y rhyngwrwyd i'w gwneud yn haws i fusnesau ennill contractau sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau ein bod yn datblygu ein hadnoddau ar-lein i helpu prynwyr yn y sector cyhoeddus a chyflenwyr a gwneud y broses yn hawdd iddynt – gan adeiladu ar adborth a gafwyd gan weithwyr caffael proffesiynol a busnesau. Gwnawn hyn drwy greu un **Wefan Gaffael Genedlaethol**.

Sefydlwyd Bwrdd Caffael newydd fel rhan o'r Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi i ystyried ffyrdd o weithio gyda'r gadwyn gyflenwi, ysgogi arbedion drwy brosesau mwy effeithlon, lleihau achosion o ddyblygu a gwella perfformiad cyflenwyr. Byddwn yn sefydlu **Panel Cyfeirio Cyflenwyr** a fydd yn gweithio gyda'r Bwrdd Caffael i helpu cyflenwyr a phrynwyr cyhoeddus i wella gwaith ymgysylltu, llunio polisiau ac ymyriadau a sicrhau bod y rhain yn llwyddo ar lawr gwlad.

Mae gwaith peilot ar fylchau a gwendidau mewn cyflenwadau wedi tynnu sylw at feysydd lle caiff cyfran sylweddol o wariant y sector cyhoeddus ei chontractio y tu allan i Gymru am nad oes digon o allu yng Nghymru neu am nad yw busnesau yng Nghymru yn chwilio am fusnes yn y sector cyhoeddus. Byddwn yn ymestyn y gwaith hwn ledled Cymru, er mwyn gwerthfawrogi gwahaniaethau gofodol yn well a deall ein sail gyflenwi yn llawn, ac er mwyn ymchwilio i'r potensial ar gyfer gweithgarwch cydweithredol rhwng busnesau ar sail sectoraidd, gofodol a gallu. Byddwn yn annog busnesau i ddatblygu a chystadlu er mwyn llenwi'r bylchau yn y gadwyn gyflenwi.

Gall diffyg adnoddau, gallu a sgiliau ar draws y sector cyhoeddus ei gwneud yn anodd ysgogi newid. Mae angen i ni ddwyn ynghyd amrywiaeth o gamau

gweithredu, o hyfforddi pobl ifanc, i baratoi uwch arweinwyr yn well fel y gallant wneud y defnydd gorau posibl o sgiliau caffael proffesiynol, a datblygu'r defnydd o e-gaffael drwy raglen cyfnewidcymru. Ategir ein gwaith yn y maes hwn gan y **prosiect Trawsnewid Caffael drwy Dalent Gynhenid** (gan ddefnyddio arian Ewropeaidd).

Caffael ym maes iechyd

Mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad allweddol i ddatblygu'r economi. Fel y sefydliad mwyaf â'r gwariant mwyaf yn sector cyhoeddus Cymru, mae gwariant GIG Cymru ar ddatblygiadau cyfalaf newydd a chaffael gwasanaethau yn cael effaith uniongyrchol ar yr economi.

Rydym yn datblygu ein dulliau **caffael cydweithredol** ymhellach drwy gynnwys timau caffael Byrddau Iechyd Lleol yn swyddogaeth newydd Cydwasanaethau GIG Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau'r GIG yn cael mwy o werth, yn gwella'r más critigol o arbenigedd caffael yn GIG Cymru, ac yn rhoi'r GIG mewn sefyllfa gryfach i gyfrannu at ein blaenoriaethau ehangach ar gyfer economi Cymru.

Disgwylir y bydd ein cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth cadwyn gyflenwi a reolir o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer nifer o gynhyrchion y GIG yn darparu llwybr cyflenwi mwy effeithlon i wasanaethau rheng flaen ac yn rhyddhau mwy o amser nyrsio i ddarparu gofal i gleifion. Ein nod yw creu cyfleoedd i sefydliadau masnachol lleol sefydlu 'canolfannau dosbarthu oddi ar y safle' ar gyfer cyflenwadau i sefydliadau yn sector cyhoeddus Cymru. Bydd hyn yn golygu y gall y sector cyhoeddus leihau ei ôl troed carbon ymhellach drwy ddosbarthu cyflenwadau cyfunol.

Yn ei ddatblygiadau cyfalaf, mae GIG Cymru yn defnyddio Fframwaith Caffael Cadwyn Gyflenwi'r GIG, ac yn sgîl hyn agorwyd neu ehangwyd 14 o swyddfeydd ar wahân ledled Cymru gan Bartneriaid Cadwyni Cyflenwi ac Aelodau Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Fframwaith wedi datblygu 'Strategaeth Budd i'r Gymuned' sy'n annog pob parti i ymgysylltu â chymunedau lleol a defnyddio cyflenwyr ac isgcontractwyr lleol pan fo hynny'n briodol.

Rydym yn awyddus hefyd i annog **dulliau mwy arloesol o weithredu ymhob rhan o'r sector iechyd** drwy gydweithredu, gan ddefnyddio asedau'n fwy effeithiol a rhannu arfer arloesol a ffyrdd newydd o wneud pethau.

Cael yr elw mwyaf o fuddsoddiad mewn tai cymdeithasol

Mae gwario ar dai ac adeiladu yn gyfle mawr i wneud arbedion a datblygu gweithgynhyrchwyr a darparwyr gwasanaethau lleol, a gweithlu medrus lleol ar yr un pryd. Mae adeiladu yn cyfrif am tua 20% o'r £4.3 biliwn o wariant caffael cyhoeddus cyffredinol ac mae'n cyflwyno llawer o gyfleoedd i gyflenwyr yng Nghymru gystadlu am fusnes a'i ennill gan weithredu ar yr un pryd fel cyfrwng i ddarparu budd cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol.

Yn y sector Tai Cymdeithasol rhagwelir y bydd angen buddsoddiad o £3 biliwn i sicrhau bod pob cartref yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Rydym yn gwario dros £430 miliwn ar dai bob blwyddyn. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant cymdeithasau tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o'u referniw eu hunain. Mae cymalau ynghylch budd cymdeithasol neu gymunedol, fel ffordd o gael pobl nôl i weithio, yn nodwedd fwyfwy cyffredin o gontractau caffael yn y sector cyhoeddus. Mae gennym gyfle i ymestyn yr arfer da a sefydlwyd mewn

ardaloedd adfywio er mwyn helpu pobl i gael swyddi sefydlog.

Byddwn yn gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol i **wella arferion caffael**, a chyda'r sector adeiladu i **wella'r ymateb i gyfleoedd caffael**.

Gwella iechyd y boblogaeth o oedran gweithio

Gall gweithlu iach fod o fudd i fusnesau. Dengys gwaith ymchwil y gall buddsoddi mewn iechyd a lles staff arwain at elw o rhwng 1:2.3 (ar gyfer costau meddygol) i 1.10.1 (ar gyfer absenoldeb) ar y buddsoddiad. Felly rydym wedi sefydlu Cymru Iach ar Waith i helpu a chynghori busnesau ar ddatblygu gweithleoedd iach i'w staff a lleihau eu lefelau o absenoldeb oherwydd salwch. Gall hyn arwain at gynnydd mewn effeithiolrwydd, cynhyrchiant a chystadleurwydd i gyflogwyr.

Darperir Cymru Iach ar Waith mewn partneriaeth â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n darparu amrywiaeth o gyngor a chymorth drwy, er enghraifft, linellau cyngor, ymweliadau uniongyrchol i ymgysylltu â busnesau ac ystod eang o fentrau gwella iechyd, megis Dim Smygu Cymru a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl y gellir eu cynnal yn uniongyrchol yn y gweithle. Mae canolfan ar-lein newydd i gyflogwyr yn cael ei datblygu fel y gall rheolwyr llinell gael gwybodaeth a chymhorthion desg ar-lein i'w helpu i reoli cyflogeion â phroblem iechyd yn y gwaith. Rhoddir gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn eu helpu i roi mwy o gymorth i'w cleifion sydd â phroblemau iechyd yn y gwaith.

Byddwn yn gweithio gyda'r GIG a phartneriaid eraill i **ddatblygu'r cymorth a roddir i fusnesau drwy Cymru Iach ar Waith** ymhellach.

Helpu i adnewyddu'r economi drwy ein gweithgareddau presennol

Rydym eisoes yn gwella'r amodau ar gyfer datblygu'r economi drwy amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys:

- O 1 Hydref 2010, ni fydd tua hanner busnesau bach Cymru yn talu ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn a bydd tua 20% arall yn talu llawer llai o ardrethi busnes. At hynny, mae'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2010-11 wedi gostwng 16% a bydd 60% o fusnesau Cymru yn gweld lleihad yn eu biliau cyn y cyfrifir unrhyw ryddhad mewn ardrethi i fusnesau bach yn dilyn ailbrisiad ardrethi annomestig 2010. Rydym eisoes wedi comisiynu gwerthusiad o'r cynllun rhyddhad ardrethi a gaiff ei gwblhau yn ystod hydref 2010 a byddwn yn adolygu'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn barhaus, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â lefelau is o wariant cyhoeddus. Mae eiddo gwag â gwerth ardrethol o hyd at £18,000 y flwyddyn wedi'i eithrio rhag ardrethi hyd at 31 Mawrth 2011. Mae cyfnod eithrio o dri neu chwe mis yn gymwys o hyd i eiddo gwag uwchlaw'r trothwy hwn yn dibynnu ar p'un a yw'n eiddo masnachol/manwerthu neu ddiwydiannol.
- *Cyhoeddwyd Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru* ym mis Medi 2009 ac mae'n amlinellu ein polisi cyffredinol. Rydym hefyd yn gweithio drwy Fforwm y Pedair Gwlad ar Reoleiddio Gwell, a chyda'r Swyddfa Rheoleiddio Gwell ar y blaenoriaethau cenedlaethol o ran gorfodi yng Nghymru.
- Mae *Datganiad Strategol Amgylchedd Hanesyddol Cymru* yn blaenoriaethu camau i ddiogelu ac amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol rhag bygythiadau fel datblygiadau ansensitif

ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar gyfraniad posibl yr amgylchedd naturiol i adfywio a datblygu cynaliadwy.

- Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein Hardaloedd Adfywio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol er mwyn darparu gwell ansawdd bywyd a gwell amgylchedd i rai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac ysgogi buddsoddiad a gweithgarwch economaidd.
- Rydym yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy annog a chefnogi pobl i'w defnyddio ymhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.
- Caiff cymorth gan y Llywodraeth o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol ei ddarparu drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, gyda'r nod o annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol a hyrwyddo rhagoriaeth mewn chwaraeon yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

5. Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau

Sylfaen unrhyw economi yw ei phoblogaeth sy'n gweithio, ac mae addysg a sgiliau ar bob lefel yn hanfodol ar gyfer twf a ffyniant economaidd yng Nghymru. Maent yn cyfrannu'n bwerus at allu'r wlad i gystadlu, cynhyrchiant busnes a symudedd cymdeithasol unigol. Mae datblygu sgiliau'n ganolog i'r gwaith o wneud Cymru'n lle deniadol iawn i fyw, buddsoddi, cyflogi a thyfu.

Rydym ni i gyd fel Llywodraeth, darparwyr dysgu, cyflogwyr ac unigolion yn gyfrifol am ehangu a dyfnhau ein sylfaen sgiliau.

Er mwyn adnewyddu'r economi, mae angen i ni:

- ddatblygu partneriaeth ymatebol â busnes o ran darparu sgiliau, sy'n targedu buddsoddiad yn benodol at ein gofynion economaidd ar ôl y dirwasgiad
- helpu pobl ifanc i lwyddo a pharatoi ar gyfer y byd gwaith
- gwneud mwy o ymdrech i helpu'r rheini sydd wedi ymddieithrio, gan leihau anweithgarwch economaidd a diweithdra.

Cyd-destun

Mae angen seilwaith dysgu, sgiliau a chyflogaeth ar Gymru, a all ddatblygu gweithlu sydd â'r agweddau, y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder priodol i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol heddiw ac yn y dyfodol. Rydym o'r farn ein bod ni i gyd fel Llywodraeth, darparwyr dysgu, cyflogwyr ac unigolion yn gyfrifol am ddatblygu'r seilwaith hwn. I gyflawni'r potensial ar y cyd, mae angen y canlynol arnom:

- cyflogwyr yn y gwasanaeth preifat a chyhoeddus sydd wedi ymrwymo i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau yn y ffordd orau bosibl
- poblogaeth lle mae'r rhan fwyaf o unigolion yn ddysgwyr gydol oes sy'n ymrwymedig ac sy'n fodlon ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau er budd eu cyflogwr presennol a manteisio i'r

eithaf ar eu cyfleoedd gwaith yn y dyfodol

- systemau cymorth sy'n darparu cyngor ac arweiniad syml sydd ar gael yn rhwydd o ran cyfleoedd dysgu, cyfleoedd gwaith, cymorth ariannol a gofal plant
- system addysg a hyfforddi sy'n rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar bobl erbyn iddynt gyrraedd yr oedran statudol ar gyfer gadael yr ysgol, ac sy'n darparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth.

Roedd ein strategaeth, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* (2008) yn nodi ein hagenda integredig ar gyfer sgiliau ôl-16, cyflogadwyedd a chymorth busnes. Daeth ein 'Fframwaith Marchnad Lafur' (2010) ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau â'n hymdrechion at ei gilydd i helpu

rhagor o bobl i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r strategaeth, *Er Mwyn Ein Dyfodol* (2009), yn rhoi'r her i'n darparwyr addysg uwch gymryd rhan lawer mwy yn y gwaith o helpu economi Cymru i lwyddo yn y dyfodol drwy gysylltiadau cryfach â busnes a mwy o waith masnacheiddio gwybodaeth newydd a gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae'r gwaith o nodi sectorau blaenoriaeth ar gyfer ymchwil a datblygu a masnacheiddio yn rhoi ffocws i'r ymdrech hon. Hefyd, mae rheidrydd moesol i godi uchelgais ac ehangu mynediad i addysg uwch, gan ymdrechu'n galetach i gynnig ei manteision i gymunedau sydd â hanes o lefelau annigonol yn y maes.

Yn strategaethau a chynlluniau gweithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* ac *Er Mwyn ein Dyfodol* mae mwy o bwyslais ar ddiwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr ac alinio adnoddau â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae cryn fuddsoddiad cyhoeddus eisoes yn cael ei wneud mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru – gallem gael llawer mwy o fudd economaidd a chymdeithasol o ganlyniad, a dylem fod yn gwneud hynny. Am y rheswm hwn, daw'r ddwy strategaeth â newidiadau mawr i'r ffordd y mae dysgu'n cael ei gynllunio, ei ddarparu a'i gefnogi.

Mae'r strategaethau hyn yn elfennau hanfodol o agenda polisi economaidd Cymru. Hyd yma, mae ein dull o weithredu wedi bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ni sefydlu mentrau sgiliau mawr yn gyflym, megis ReAct, ProAct a Llwybrau at Brentisiaethau, a oedd yn ganolog i'n hymateb i'r dirwasgiad.

Cyfeiriad newydd ar gyfer adnewyddu'r economi

Rydym o'r farn bod ein hymrwymiad i ddatblygu sgiliau yn ganolog i'r gwaith o wneud Cymru'n lle deniadol iawn i fyw,

buddsoddi, cyflogi a thyfu. Rydym wedi ymrwmo i wneud gwaith sylfaenol ar y saith canlyniad craidd canlynol:

- Partneriaeth ddiffuant â chyflogwyr o ran sgiliau'r gweithlu ar bob lefel
- Ysgogi pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith
- Cyllid sy'n dilyn blaenoriaethau ac ymrwymadau polisi
- Prentisiaethau o ansawdd uchel
- Sgiliau sy'n agor llwybrau gwerthfawr at waith
- Rhwydwaith o ddarparwyr sy'n sicrhau dewis, yn arloesi ac yn rhagori
- Swyddi newydd a thwf mewn cwmnïau sydd eisoes yn bodoli a chwmnïau newydd sy'n codi o fasnacheiddio gwybodaeth ac ymchwil mewn Addysg Uwch.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy fwrw ymlaen â'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg Uwch, *Er Mwyn ein Dyfodol* a thrwy roi cynllun gweithredu *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* sydd wedi'i ddiweddarau ar waith a gaiff ei gyhoeddi yn hydref 2010.

Partneriaeth ddiffuant â chyflogwyr o ran sgiliau'r gweithlu ar bob lefel

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ystod o gymorth sydd ar gael i gwmnïau drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu. Mae'r rhaglen yn gweithredu fel porth i lawer o opsiynau dysgu gwahanol, gan gynnwys hyfforddiant arwain a rheoli ac arian a roddir yn ôl disgrisiwn i fynd i'r afael ag anghenion datblygu pwrpasol. Byddwn yn sicrhau bod Rhaglen Datblygu'r Gweithlu yn helpu ein blaenoriaethau datblygu economaidd.

Mae'n rhaid buddsoddi mewn sgiliau mewn partneriaeth a byddwn yn parhau i roi gwerth ar ddeialog cyson â chyflogwyr a chyrff cynghori megis

Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Mae'n rhaid i raglenni sgiliau barhau i fod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr a'r cydestun economaidd ehangach. Byddwn yn teilwra cymorth mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu anghenion sectoraidd ac unigol cyflogwyr, gan helpu i ryddhau potensial y cwmnïau hynny sy'n debygol iawn o dyfu a chyflogi.

Byddwn yn anelu rhaglen Twf Sgiliau Cymru, a ariennir yn rhannol gan gronfeydd Ewropeaidd, at fusnesau strategol bwysig fel rhan o ddull integredig o helpu busnesau. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn **sgiliau arwain a rheoli gwell**, a ariennir hefyd gan gronfeydd Ewropeaidd. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth newydd ar gyfer Arwain a Rheoli yng Nghymru yn hyrwyddo'r galw ymhlith cyflogwyr ac yn gwella ansawdd gwybodaeth a darpariaeth.

Byddwn yn helpu cyflogwyr i fynd i'r afael â'r costau a'r potensial sydd wedi'i wastraffu sy'n codi o lefelau isel o lythrennedd a rhifedd yn y gweithlu drwy **Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol**. Cefnogir hyn trwy gronfeydd Ewropeaidd drwy **brosiectau newydd Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle** a fydd yn gweithredu ledled Cymru o fis Hydref 2010 tan fis Medi 2013. Mae'r prosiectau yn bwriadu helpu dros 1000 o gyflogwyr a 30,000 o unigolion cyflogedig.

Gyda chymorth arian Ewropeaidd a chyfraniadau gan gyflogwyr, byddwn yn gweithredu prosiect peilot **Cronfa Blaenoriaethau Sector**. Mae hyn yn golygu gweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector i dreialu gweithgarwch y prosiect strategol a darparu gwybodaeth am y farchnad lafur, gan alluogi darpariaeth sgiliau ôl-16 i fod yn fwy ymatebol a chydnaws ag anghenion cyflogwyr.

Ysgogi pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith

Er mwyn sicrhau bod yr economi'n parhau i gael ei hadnewyddu, mae angen system addysg a hyfforddi arnom sy'n helpu pobl ifanc i lwyddo a bod yn barod am y byd gwaith. Rydym o'r farn bod yn rhaid i ysgolion, colegau a phrifysgolion ddatblygu ymhlith pobl ifanc yr agweddau a'r sgiliau priodol ar gyfer y gweithle, ni waeth pa lwybrau dysgu y maent wedi'u dewis. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig ymrwymiad i sicrhau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ond datblygu sgiliau ehangach megis entrepreneuriaeth a deall cyfrifoldeb cymdeithasol personol. Bydd ein hymrwymiad parhaus i ehangu dewis a gwella cymorth i ddysgwyr drwy Lwybrau Dysgu 14-19 yn sail i'r camau y byddwn yn eu cymryd.

Mae'n hanfodol ein bod yn ennyn diddordeb rhagor o bobl ifanc mewn datblygu'r mathau o sgiliau a fydd yn datblygu potensial Cymru am dwf economaidd. Mae pynciau fel gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yn arbennig o bwysig yn hyn o beth. Byddwn yn **hyrwyddo** y pynciau hyn hyd at Addysg Uwch ac ar lefel ôl-radd, drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol newydd a fydd yn gysylltiedig â'r agenda wyddoniaeth ehangach a gwaith Prif Gynghorydd Gwyddonol newydd Cymru. Byddwn yn defnyddio cronfeydd Ewropeaidd i helpu i hyfforddi pobl ifanc yn y pynciau STEM drwy brosiect sgiliau STEM.

Mae'r dirwasgiad wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc. Gostyngodd y gyfradd cyflogaeth ymhlith pobl 16-24 oed 5.1 y cant rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2008 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2009, o'i chymharu â gostyngiad o 2.3 y cant i bob oedolyn o oedran gweithio. Gall

rhwystrau cynnar arwain at ganlyniadau hirdymor: effeithiau niweidiol sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd unigolyn yn cael profiad o ddiweithdra yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallwn wneud gwahaniaeth i ddyfodol pobl ifanc yng Nghymru.

Rydym eisoes yn hyrwyddo cyfleoedd newydd i bobl ifanc ddilyn prentisiaethau drwy'r cynlluniau Recriwtiaid Newydd a Llwybrau at Brentisiaethau. Yn 2011, byddwn yn **cyflwyno olynydd i'r rhaglen Adeiladu Sgiliau** a fydd yn cynnig rhagor o gymorth, gan gynnwys hyfforddiant lefel mynediad ar 'ymgysylltu' i bobl ifanc sy'n wynebu'r rhwystrau gwaethaf wrth geisio cael swydd. Yn ogystal, byddwn yn ystyried beth arall y gallwn ni ei wneud i helpu pobl ddi-waith ifanc, ynghyd ag **argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiweithdra ymhlith Pobl Ifanc.**

Mae gwybodaeth annibynnol a seml o ansawdd uchel am beth sy'n digwydd yn y byd gwaith, a lle mae'r cyfleoedd dysgu, yn hanfodol i farchnad lafur weithio'n effeithlon. Mwya'r wybodaeth y mae unigolion, cyflogwyr a darparwyr dysgu yn ei chael, mwya effeithiol y mae eu penderfyniadau ynghylch swyddi a buddsoddiad mewn sgiliau'n debygol o fod. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i **helpu unigolion i wneud dewisiadau dysgu cytbwys** a, maes o law, i ystyried ein hymateb i'r adolygiad ehangach o wasanaethau gyrfa unwaith y bydd yr wybodaeth hon wedi'i derbyn.

Cyllid sy'n dilyn blaenoriaethau ac ymrwymadau polisi

Gan fod pawb yn cael budd o sgiliau – dysgwyr, cyflogwyr, y wlad gyfan – mae'n rhaid adlewyrchu hyn yn y cyfraniadau at gost dysgu. Mae tystiolaeth gadarn o fudd ar ffurf cyflogau uwch neu well cynhyrchiant yn sgil y rhan fwyaf o'r buddsoddi gan unigolion a chyflogwyr mewn sgiliau. Oherwydd ein hadnoddau

cyfyngedig, ni allwn ariannu'r holl ddsygu sydd ei angen ar gyfer economi gystadleuol, ac ni ddylem wneud hynny ychwaith. Mae'n rhaid i'n dull o ariannu sicrhau bod anghenion y rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf anghenus yn cael eu trin ochr yn ochr â'n blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd.

Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad, *Buddsoddi mewn Sgiliau*, byddwn yn mynd ati i gyflwyno **polisi ffioedd eglur a thryloyw ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16**. Erbyn mis Medi, byddwn yn cyhoeddi manylion cam nesaf ein cynigion i weithredu polisi ffioedd.

Ym mis Gorffennaf, rydym yn gwahodd tendrau ar gyfer gweithredu ein rhaglen brentisiaethau. Gan symud ymlaen, byddwn yn defnyddio'r **Cytundeb Gweithredu Blynyddol i Ddatblygu Sgiliau'r Gweithlu** er mwyn gwneud y ddarpariaeth yn fwy cydnaws ag amcanion adnewyddu'r economi, gan gynnwys sicrhau bod arian ar gyfer prentisiaethau yn gysylltiedig â sectorau blaenoriaeth a busnesau strategol.

Byddwn yn helpu ac yn datblygu'r sector gofal plant i gymryd camau ynghyd â'n partneriaid i sicrhau bod gofal plant ar gael yn fwy hwylus, ei wneud yn fwy fforddiadwy a gwella ei ansawdd. Bydd hon yn rhan annatod o'n dull o helpu teuluoedd a hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith o weithredu ein Strategaeth Tlodi Plant i Gymru.

Prentisiaethau o ansawdd uchel

Rydym o'r farn bod unigolion a chyflogwyr yn rhoi gwerth ar brentisiaethau fel modd o ddatblygu pobl o bob oedran yn y gweithlu. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu'r model prentisiaethau fel opsiwn hyfforddi galwedigaethol arloesol ac i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n rhannu'r manteision

y mae prentisiaethau yn eu cynnig. Ein nod yw adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen brentisiaethau i bobl o bob oedran drwy gryfhau'r brand prentisiaethau ymhellach.

Mae Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 yn darparu, am y tro cyntaf, sail statudol i brentisiaethau. Bydd y Ddeddf yn cryfhau ein system brentisiaethau, er mwyn i ragor o bobl ifanc ac oedolion allu elwa ar y llwybr hwn at yrfa sgil-uchel yn y dyfodol. Bydd ein Huned Brentisiaethau newydd yn cymryd camau i sicrhau bod hyfforddiant yn diwallu anghenion cyflogwyr ac yn ystyried sut y gallwn **greu cymhellion a chyfleoedd newydd i gyflogwyr gynnig prentisiaethau** yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r gwersi a ddysgir o'r modelau peilot Prentisiaethau wedi'u Rhannu.

Byddwn hefyd yn **treialu gwasanaeth Paru Prentisiaethau newydd** a fydd yn caniatáu i gyflogwyr hysbysebu swyddi prentisiaethau yn uniongyrchol i ymgeiswyr. Bydd cyfleoedd ychwanegol ar gael drwy'r Llwybrau at Brentisiaethau a ariennir gan Ewrop i bobl ifanc baratoi ar gyfer hyfforddiant prentisiaethau.

Sgiliau sy'n agor llwybrau gwerthfawr at waith

Ar gyfer pobl sy'n economaidd anweithgar a phobl ddi-waith, mae'n hanfodol torri cylchoedd ymddieithrio a mynd i'r afael ag anghymhellion i weithio os ydym am ryddhau potensial newydd yn ôl i economi Cymru. Bydd goresgyn y rhwystrau hyn yn sicrhau dwy fantais, sef cynyddu maint y gweithlu sy'n gweithio a mynd i'r afael ag un o brif achosion tlodi plant.

Mae materion yma sy'n gorgyffwrdd â materion nad ydynt wedi'u datganoli megis polisi cyflogaeth a threfn budd-daliadau – ac felly mae angen i ni ddeall dulliau polisi ledled y DU a gweithio

i deilwra a gwella hyn i adlewyrchu'r anghenion gwahanol yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio i ddarparu **gwasanaeth sgiliau a chyflogaeth mwy effeithiol** dan faner Grisiau Gyrfa Cymru, gan ei seilio ar Gyd-Fframwaith y Farchnad Lafur y cytunwyd arno â'r Adran Gwaith a Phensiynau a gwaith Cyd-Fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth. Byddwn yn cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosib i Gymru, yn benodol o ran y Rhaglen Waith sengl, gan sicrhau ei fod yn cyfrannu'n llawn at ein hamcanion. Byddwn hefyd yn symleiddio rhaglenni ac yn gwella ansawdd cymorth cynghorwyr i helpu pobl i gael gwaith.

Rhwydwaith o ddarparwyr sy'n sicrhau dewis, yn arloesi ac yn rhagori

Er bod gennym lawer o enghreifftiau o ragoriaeth, mae llawer o'r rhwydwaith o ddarparwyr yng Nghymru wedi datblygu dros gyfnod yn hytrach na chael ei gynllunio'n bwrpasol. Mae hyn wedi arwain at hanes o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd mewn rhai meysydd. Mae'r gwaith o weddnewid y rhwydwaith dysgu ôl-16 yn helpu i ddatblygu atebion lleol i anghenion lleol, ac mae'n cael ei ehangu ar hyn o bryd yn ddull ar gyfer pobl o bob oedran ar draws y system gyfan.

Byddwn yn parhau i **weddnewid y system gyfan** ac yn bwrw ymlaen â'r **agenda i ddiwygio'r broses lywodraethu**, gan greu rhwydwaith dysgu o ansawdd uchel sy'n sicrhau gwell dewis a chyfle ac sy'n ddeniadol i gyflogwyr. Bydd mwy na 70% o'r Cynlluniau Gweddnewid ôl-16 yn cael eu gweithredu erbyn mis Medi 2010 ac mae hyn yn rhagori ar ein targed, sef 60%. Caiff gweddill y cynlluniau eu gweithredu erbyn mis Medi 2011. Byddwn yn ymateb i ganlyniadau'r Adolygiad Addysg a gynhelir gan PricewaterhouseCoopers – gan anfon adnoddau i'r rheng flaen

– yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn y gwaith o foderneiddio ein cyfleusterau ar gyfer dysgu drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif.

Addysg Uwch a Sgiliau Lefel Uchel

Mae Addysg Uwch yng Nghymru yn gwneud cyfraniad mawr at yr economi. Mae'r sector yn datblygu'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar y busnesau mwyaf arloesol, yn creu ac yn trosglwyddo gwybodaeth, yn gyflogwr mawr ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau yn ei rhinwedd ei hun. Er bod tystiolaeth eisoes ar gael o effaith gref llusosi yn sgil buddsoddi arian cyhoeddus sydd eisoes yn digwydd mewn Addysg Uwch, rydym o'r farn bod modd sicrhau mwy o fudd yn y dyfodol. Byddwn yn cwblhau ein **hadolygiad o'r broses o lywodraethu Addysg Uwch** i sicrhau bod cyrff llywodraethu'n cael eu strwythuro'n briodol i sicrhau newid ac, os oes angen, i herio'r ffordd y rheolir sefydliadau.

Mae'r Cynllun Gweithredu *Er Mwyn Ein Dyfodol* yn nodi amcanion i'w cyflawni erbyn 2012-13:

- Datblygu system genedlaethol o Addysg Uwch yng Nghymru, gyda phrifysgolion a cholegau addysg bellach yn cydweithio mewn ffordd integredig
- Darpariaeth sydd wedi'i chynllunio a'i threfnu'n fwy cydlynol ym mhob ardal yng Nghymru, er budd dysgwyr a chyflogwyr lleol
- Ymchwilio i berfformiad safonau rhagoriaeth rhyngwladol, a drefnir o fewn a rhwng sefydliadau mewn ffyrdd cynaliadwy sydd wedi'u cysylltu'n gryf â defnyddwyr a buddiolwyr eraill
- Llawer llai o sefydliadau

- Dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae pob sefydliad yn cyfrannu at y system gyfan, un unigol a thrwy gydweithredu, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Sicrhau bod pob sefydliad yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolog.

Un o egwyddorion canolog *Er Mwyn Ein Dyfodol* yw bod y graddau sylfaen a ddarperir yng Nghymru yn hollol ymatebol ac yn ystyried anghenion ein cyflogwyr, ein gweithwyr presennol a gweithlu'r dyfodol o ran sgiliau. Yn yr un modd, rydym nid yn unig yn disgwyl i ddarparwyr Addysg Bellach ac Uwch gydweithio a defnyddio eu hadnoddau cyfun i ddarparu graddau sylfaen, ond rydym yn disgwyl iddynt, yn bwysicach, weithio'n agos mewn rhwydweithiau gyda chyflogwyr – yn benodol yn rhanbarthol. Bydd CCAUC yn cymryd camau i weithredu'r polisi Graddau Sylfaen ac yn sicrhau bod rhagor o Raddau Sylfaen ar gael yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar wella sgiliau gweithlu Cymru, yn gyson â strategaethau rhanbarthol ar addysg uwch a blaenoriaethau'r sector. Rydym hefyd yn disgwyl i CCAUC ystyried hyn wrth gyhoeddi eu Strategaeth Gynllunio Ranbarthol.

Helpu i adnewyddu'r economi drwy ein gweithgareddau presennol

Rydym wedi bod yn gwneud cynnydd da o ran gwella sgiliau yng Nghymru. Mae canlyniadau arholiadau a lefelau cymwysterau wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Mae ein dull ymatebol ac integredig o weithredu ym maes sgiliau, cyflogaeth a chymorth busnes, fel y'i nodir yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, wedi helpu llawer o unigolion a chyflogwyr i oroesi'r dirwasgiad a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

Helpu unigolion sy'n colli eu swyddi i ailhyfforddi a helpu busnesau i ymateb i'r dirywiad economaidd

Mae ein Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct) yn darparu arian ar gyfer hyfforddiant i bobl sy'n colli eu swyddi, a chyflogwyr sy'n fodlon cyflogi rhywun sydd wedi colli ei swydd yn ddiweddar. Rhwng 1 Hydref 2008 a 30 Ebrill 2010, helpodd ReAct bron i 16,000 o bobl. Mae ProAct wedi bod yn darparu hyfforddiant a chymhorthdal cyflog ar gyfer gweithwyr sydd wedi dechrau gweithio oriau byrrach, gan gynnig dewis arall yn lle diweithdra. Cyfanswm ein hymrwymiad arian yw dros £25.6m. Mae'r rhaglen olynol, Sgiliau Twf Cymru, yn parhau i gefnogi hyfforddiant mewn cwmnïau sydd â'r potensial i dyfu. Mae pob un o'r tri chynllun yn cael ei ariannu'n rhannol gan gronfeydd Ewrop.

Helpu i roi plant ar ben ffordd yn gynnar

Er mwyn i economi Cymru barhau i lwyddo yn y tymor hir, mae angen helpu i roi pobl ar ben ffordd yn gynnar. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb ymhlith plant er mwyn i'r gymdeithas fod yn deg, oherwydd bod cefndir cymdeithasol yn debygol iawn o lywio cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd. Mae angen i ni sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan dorri'r cysylltiad rhwng dosbarth cymdeithasol a llwyddiant. Rydym eisoes yn helpu teuluoedd a phobl ifanc difreintiedig drwy ein cynllun Dechrau'n Deg, ac rydym yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod gofal plant ar gael yn fwy hwylus, ei wneud yn fwy fforddiadwy a gwella ei ansawdd. Mae'r datblygiadau hyn yn helpu'r gwaith ar y Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru.

Gwneud ein hysgolion yn fwy effeithiol

Mae'r ysgolion yng Nghymru yn addysgu gweithlu'r dyfodol. Yn gyffredinol, mae'r plant yng Nghymru yn cyflawni'n dda.

Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy i leihau'r gwahaniaethau mewn canlyniadau o fewn ysgolion, rhwng ysgolion, rhwng awdurdodau lleol a rhwng cyfnodau cynradd ac uwchradd addysg. Rydym yn parhau i weithredu'r Cyfnod Sylfaen, ein dull radical newydd o weithredu ym maes addysg ar gyfer plant 3-7 oed, ac rydym yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu ymhellach y Llwybrau Dysgu 14-19, sy'n cynnig ystod ehangach o ddewisiadau dysgu a gwell cymorth personol i bobl ifanc. Rydym yn parhau i hyrwyddo Bagloriaeth Cymru, sydd wedi'i chroesawu gan gyflogwyr.

Helpu pobl ifanc i gael cyfleoedd i gyflawni

Mae'r dirwasgiad wedi cael effaith wael ar bobl ifanc yn benodol: mae'r gyfradd cyflogaeth ymhlith pobl ifanc 16-24 oed wedi gostwng yn fwy nag ymhlith grwpiau oedran eraill. Rydym wedi datblygu'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau i helpu pobl ifanc i gael hyfforddiant galwedigaethol ar adeg pan fo galw cyflogwyr am brentisiaethau wedi lleihau.

Sgiliau'r gweithlu

Mae newidiadau demograffig yng Nghymru'n golygu y bydd llai o bobl ifanc yn ymuno â'r gweithlu, ac felly mae'n bwysicach fyth ein bod yn gwella sgiliau oedolion. Bydd buddsoddi mewn addysg i oedolion, yn enwedig hyfforddiant yn y gweithle, yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella ein gallu i gystadlu.

Mae'r polisiau a'r rhaglenni presennol yn ategu sgiliau oedolion mewn sawl ffordd. Er enghraifft, mae'r canllawiau cynllunio ar gyfer sefydliadau Addysg Uwch yn datgan y dylent gynyddu'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a chefnogi blaenoriaethau lleol y Cynllun Gofodol. Mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu hefyd yn parhau i gynnig nifer o wahanol raglenni sgiliau i gyflogwyr. Mae Cronfa

Ddysgu Undebau Cymru yn cefnogi ymdrechion yr undeb i annog cyflogwyr a gweithwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant.

Mae galw cynyddol am gymwysterau galwedigaethol ymhlith y rheini sydd dros 21 oed, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y cymwysterau hyn bellach yn cael eu hystyried yn werthfawr gan gyflogwyr. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar addysg i oedolion yn bwysig, gan fod angen i ddiwylliant o ddysgu gydol oes ymateb i anghenion cyflogwyr sy'n newid. I gefnogi hyn ymhellach, byddwn yn cyflwyno cenhedlaeth newydd o gymwysterau galwedigaethol a fydd yn galluogi dysgwyr i ddysgu ac ennill cymwysterau mewn ffordd hyblyg a dros gyfnod byr – bydd cyflogwyr a dysgwyr yn elwa arnynt.

Mae'r iaith Gymraeg bellach yn gynyddol amlwg yn y gweithle wrth i'r defnydd o'r iaith gynyddu yn y sector cyhoeddus a rhannau o'r sector preifat. Rydym felly'n cefnogi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sy'n cydnabod bod sgiliau iaith Gymraeg yn bwysig ar gyfer llwyddiant nifer o fusnesau Cymreig yn y dyfodol.

Gweithredu ar sail sectorau a chydweithio â sectorau i ddiwallu eu hanghenion yng Nghymru

Rydym yn cydweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector a rhanddeiliaid er mwyn datblygu mesurau i gryfhau'r rhaglen Prentisiaethau, gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir, Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a'r rhaglenni Recriwtiaid Newydd a Llwybrau at Brentisiaethau. Rydym hefyd yn cefnogi'r agenda ar gyfer diwygio Cynghorau Sgiliau Sector, er mwyn creu rhwydwaith o Gynghorau perfformiad uwch. Yn olaf, rydym yn cydweithio â phartneriaid i ddatblygu acadëmiau hyfforddiant ar gyfer sectorau arbenigol, fel yr Academi Sgiliau Genedlaethol – Niwclear, sy'n cynnwys

safle Coleg Menai yn Llangefni a'r Academi Photoneg yn y Technium OpTIC yn Llanelwy.

Annog pobl i gael gwaith

Rydym yn cydweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith i helpu pobl ifanc ac oedolion i gael gwaith, ac mae gennym uchelgais gyffredin o gynllunio ac integreiddio gwell ar gyfer cyflogaeth, sgiliau a rhaglenni eraill. Un o'n camau gweithredu presennol yw datblygu rhaglen lefel mynediad newydd a mwy hyblyg i gymryd lle Adeiladu Sgiliau, a sicrhau bod dysgu'n gwneud pobl yn haws eu cyflogi ac yn helpu pobl i symud ymlaen yn y farchnad lafur. Rydym hefyd yn treialu cefnogaeth bersonol fwy gweithredol ar gyfer pobl yn y Rhyl, Blaenau'r Cymoedd a Môn a Menai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Mae'r Ddeddf Gofal Plant yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i fodloni gofynion y rhieni yn eu hardal er mwyn iddynt allu gweithio neu ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant sy'n arwain at waith.

Sicrhau bod addysg uwch yn diwallu anghenion busnesau, yr economi a chyfiawnder cymdeithasol

Er bod y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, *Er Mwyn Ein Dyfodol*, bellach yn mynd i'r afael â'r her ar gyfer Addysg Uwch, rydym eisoes wedi dechrau gwneud cynnydd da. Rydym wedi gofyn i CCAUC i ddefnyddio mwy o'i gyllid i ailstrwythuro'r sector addysg uwch yng Nghymru yn unol â'r disgwyliadau a amlinellwyd yn y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- mwy o fynediad at addysg uwch ar lefel leol drwy gydweithredu rhanbarthol

-
- mwy o bwyslais ar raglenni byrrach a mwy hyblyg a rhaglenni sydd wedi'u teiwra i ddiwallu anghenion y gweithlu
 - mwy o fàs critigol a gwell ansawdd ym maes ymchwil ac addysg sy'n cystadlu'n rhyngwladol am enw da, partneriaethau academiaidd a busnes, arloesi a buddsoddiad.

Rydym hefyd wedi gofyn i CCAUC adolygu ei ddull gweithredu mewn perthynas â chynllunio sefydliadol er mwyn creu system addysg uwch yng Nghymru lle mae sefydliadau'n canolbwyntio ar eu cryfderau unigol ac yn cydweithio ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i wella effaith economaidd Addysg Uwch.

6. Annog arloesedd

Mae Ymchwil a Datblygu'n bwysig er mwyn ysgogi arloesedd, ac mae arloesedd yn ffactor allweddol ar gyfer sbarduno cynhyrchiant, twf economaidd a gwelliannau hirdymor yn ymwneud â lles. Rhaid i Gymru symud tuag at economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n fwy dwys o ran Ymchwil a Datblygu, lle mae'r amodau cywir yn bodoli i arloesedd.

I adnewyddu'r economi, mae angen i ni wneud y canlynol:

- adeiladu ar yr arbenigedd sydd eisoes ar gael mewn prifysgolion a busnesau yng Nghymru, gan ennyn cydnabyddiaeth ar draws y DU a ledled y byd ar gyfer ymchwil o Gymru
- annog busnesau i fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu a manteisio ar gyfleoedd masnachol sy'n deillio o arloesedd ac ymchwil
- mabwysiadu dull gweithredu sydd wedi'i dargedu'n well, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ac arloesedd.

Y cyd-destun

Mae Ymchwil a Datblygu ac arloesedd yn hanfodol ar gyfer unrhyw economi fodern a datblygedig. Roedd adolygiad Sainsbury (*Race to the Top*) o bolisiau gwyddoniaeth ac arloesedd Llywodraeth Prydain yn amcangyfrif bod busnesau sy'n dibynnu'n fawr ar wybodaeth wedi cynyddu eu cyfran o'r CMC bum pwynt canran yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy fabwysiadu technolegau newydd. Mae'r *Mynegai Arloesedd* gan y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau, yn tanlinellu pwysigrwydd masnacheiddio ymchwil a'r angen i arloesi ym mhob agwedd ar fusnes ac ym mhob sector busnes, er mwyn gwella cynhyrchiant a phroffidioldeb. Mae dyfeisio, marchnata a defnyddio cynhyrchion, gwasanaethau a dulliau gweithio newydd yn hanfodol ar gyfer twf busnesau. Mae mabwysiadu'r rhain hefyd yn gallu ffocysu

buddsoddiadau mewn lleoliadau penodol sydd, yn ei dro, yn sicrhau cynaliadwyedd a chadernid.

Yng Nghymru, mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cynnal ymchwiliad i Ymchwil a Datblygu a masnacheiddio yng Nghymru. Mae wedi nodi mai'r angen i ddatrys problemau cwsmeriaid sydd wrth wraidd y broses arloesi. Mae hyn yn golygu mynd ati i nodi'r broblem, meddwl am syniadau newydd a gwireddu'r rhain yn llwyddiannus drwy ddefnyddio technoleg i ddatblygu cynhyrchion, prosesau, systemau neu wasanaethau newydd. Mae'r broses hon yn diwallu angen y cwsmer ac felly'n cynhyrchu refeniw ac yn ychwanegu gwerth. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a Thrafnidiaeth yn datgan bod Ymchwil a Datblygu ac arloesedd yn allweddol ar gyfer perfformiad economi Cymru yn y dyfodol.

Mae Cymru'n wynebu nifer o rwystrau a heriau sy'n ein hatal rhag gwireddu ein potensial llawn o ran Ymchwil a Datblygu ac arloesedd. O'i gymharu â llawer o economïau datblygedig eraill, nid oes sylfaen Ymchwil a Datblygu fawr yng Nghymru, yn y sector cyhoeddus na'r sector preifat. Yng Nghymru, mae Ymchwil a Datblygu yn cael ei ddominyddu gan y sector Addysg Uwch lle ceir llai o gymhellion i fasnacheiddio ymchwil. Mae proffil is i weithgarwch gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) ym mhrifysgolion Cymru, mewn rhai agweddau, nag mewn rhannau eraill o'r DU.

Yn ogystal ag ymchwil labordy traddodiadol, mae gofyn cael sgiliau newydd ac arbenigol, profiad o ddiogelu eiddo deallusol ac arloesedd wrth drefnu a darparu cynhyrchion a gwasanaethau er mwyn arloesi a masnacheiddio'n llwyddiannus. Mae clystyru a chrynhoad, ynghyd ag amgylchedd adeiledig deniadol (creu 'mannau arloesol'), yn bwysig er mwyn cadw talent yng Nghymru a sicrhau bod Cymru'n fan deniadol i ymchwilwyr newydd a chrewyr cyfoeth.

Yn ôl y ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r gwariant ar Ymchwil a Datblygu yng Nghymru (£525 miliwn) yn oddeutu 2% o gyfanswm gwariant y DU. Mae'n is o lawer na'r lefel 5% y byddem, efallai, yn ei ddisgwyl yn ôl cyfran o'r boblogaeth. Mae buddsoddiad y DU ei hun mewn Ymchwil a Datblygu hefyd yn is na llawer o wledydd datblygedig eraill. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna enghreifftiau eithriadol o arloesedd ac ymchwil nad ydynt wedi'u cynnwys yn y prif ffigurau a hynny'n aml yn ein busnesau bach a chanolig mwy creadigol. Hefyd, nid yw'r buddsoddiadau yn yr agweddau ehangach ar arloesedd megis dylunio cynhyrchion, arloesedd ym maes datblygu gwasanaethau a sgiliau, wedi'u cynnwys yn y mesuriad hwn.

Caiff Ymchwil a Datblygu yng Nghymru ei wneud mewn sawl lleoliad gwahanol, ac rydym yn dyrannu arian sylweddol yn uniongyrchol i ymchwil busnes ac academiaidd. Caiff ymchwil gychwynnol ei gwneud yn y prifysgolion yn bennaf, a'i chefnogi gan y Cynghorau Ymchwil a CCAUC. Caiff Ymchwil a Datblygu sy'n agosach at y farchnad ei gwneud gan fusnesau fel arfer, a hynny'n aml mewn cydweithrediad â'r prifysgolion. Lle nad yw busnes yn cyllido'r ymchwil yn llwyr, gall dderbyn cymorth gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg sy'n un o asiantaethau Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau'r DU.

Rhaglenni Fframwaith yw'r prif offerynnau ariannol a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi gweithgareddau Ymchwil a Datblygu, ac maent yn cwmpasu bron pob disgyblaeth wyddonol. Mae'r Seithfed Rhaglen Fframwaith (FP7) yn rhedeg o 2007 tan 2013. Ers mis Mai 2009, mae'r DU wedi denu 13.7% o gyllideb FP7, a dim ond yr Almaen sydd wedi cael cyfran fwy na hynny. Cafodd Cymru 2 y cant o gyfanswm y DU.

Mae'r Cabinet wedi cydnabod bod angen dull gweithredu sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer ymchwil a datblygu a masnacheiddio gwybodaeth yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, mae pedwar maes blaenoriaeth wedi'u pennu ar gyfer Ymchwil a Datblygu lle mae gan brifysgolion Cymru y cyfle gorau i wella eu perfformiad ymchwil a chael yr effaith economaidd mwyaf:

- Yr economi ddigidol (TGCh)
- Economi carbon isel (gan gynnwys lliniaru'r newid yn yr hinsawdd a mesurau addasu)
- Iechyd a biowyddorau
- Gweithgynhyrchu a pheirianeg uwch.

Mae busnesau yng Nghymru yn gweithredu mewn marchnad fyd-eang sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol. Mae technolegau'n dod yn fwy cymhleth ac arbenigol, y gystadleuaeth o ran costau'n fwy ffyrnig, a chyflymder yr arloesedd a'r newid yn cynyddu. Felly, mae'n rhaid i Gymru geisio elwa ar ei manteision fel gwlad fach, gan gynnwys ei gallu i ddwyn ynghyd y carfannau allweddol yn y byd diwydiant ac academiaidd ac yn y llywodraeth i ffurfio rhwydweithiau cryf rhwng sefydliadau sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil a masnacheiddio.

Mae'r rhwydweithiau hyn a chysylltiadau â busnesau yn hanfodol er mwyn masnacheiddio ffrwyth ymchwil a throsglwyddo technoleg i fusnesau i gael budd economaidd ohonynt. I gyflawni hyn, mae'n rhaid i ni annog buddsoddiadau parhaus mewn sgiliau a hyfforddiant uwch i dechnegwyr ar bob lefel er mwyn manteisio i'r eithaf ar y gweithgarwch hwn a'r potensial ar gyfer twf busnes ac elw.

Yng Nghymru mae gennym nifer o'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer economi gystadleuol sy'n seiliedig ar wybodaeth. Nawr mae arnom angen newid sylweddol i wireddu'r manteision, datblygu ein gallu i gystadlu a gwneud y gorau o'n talentau a'n harbenigedd.

Mynd i gyfeiriad newydd er mwyn adnewyddu'r economi

Rydym o'r farn y dylai ein rôl o ran cynyddu Ymchwil a Datblygu, arloesi a masnacheiddio ganolbwyntio ar ddatblygu'r amgylchedd a'r seilwaith sy'n hybu gweithgarwch arloesol.

Mae'n rhaid i ni hefyd fynd ati i gynyddu'r arloesi a'r Ymchwil a Datblygu a gynhelir yng Nghymru, yn enwedig yn ein sectorau allweddol a sicrhau bod Cymru yn elwa drwy fasnacheiddio Ymchwil a Datblygu. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- gydweithio gyda'r byd academiaidd i **feithrin gallu er mwyn diwallu anghenion busnesau** yn y sectorau allweddol
- annog cydweithio rhwng ymchwilwyr ar draws sefydliadau Addysg Uwch er mwyn **cynyddu ein gallu i gymryd rhan mewn contractau ymchwil uwch eu gwerth** a gwella ansawdd ceisiadau cystadleuol
- annog **cydweithio rhwng Addysg Uwch a busnesau** er budd y naill ochr a'r llall fel rhan o ddull gweithio "pen i ben"
- hyrwyddo **pwysigrwydd arloesedd** (Ymchwil a Datblygu, arloesedd ym maes datblygu cynhyrchion a darparu gwasanaethau) i **fusnesau**
- **hyrwyddo Cymru** fel man ar gyfer arloesi a man lle gall busnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth dyfu o dan frand Cymru
- cydweithio â busnesau i **ddatblygu eu gallu i arloesi** er mwyn sicrhau eu bod yn creu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell ac yn rhoi technolegau newydd ar waith
- **codi ymwybyddiaeth** am y cymorth sydd ar gael i fusnesau a'r byd academiaidd ar gyfer gweithgareddau ar y cyd ym meysydd Ymchwil a Datblygu a masnacheiddio
- darparu **cyfleusterau arbenigol**, gan gynnwys canolfannau deori, er mwyn darparu'r amgylchedd a fydd yn cyflymu twf technoleg a busnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth
- annog sefydliadau Addysg Uwch i roi prosesau adolygu ansawdd cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau **ceisiadau mwy llwyddiannus am gyllid**
- gweithio ar y **seilwaith sylfaenol** angenrheidiol, fel cyfleusterau a band eang hygyrch.

Credwn hefyd ei bod yn bwysig bod Cymru'n adeiladu ar y buddsoddiadau a'r cyflawniadau a wnaed eisoes mewn meysydd arbenigol lle caiff gydnabyddiaeth ryngwladol. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gallu Cymru fel rhanbarth arloesol yn yr hirdymor. Byddwn yn adeiladu ar y canolfannau arbenigedd a'r cyfleusterau arbenigol sydd ar gael eisoes yn sector addysg uwch Cymru, a byddwn yn parhau i ddatblygu mwy o gydweithredu ar ymchwil ar draws Cymru, gan gynnwys cydweithio â busnesau.

Mae'r Bwrdd Strategaeth Technoleg yn ariannu Menter Ymchwil Busnesau Bach, sy'n ceisio creu cyfleoedd ar gyfer busnesau bach arloesol drwy ddenu cyllid o brosesau caffael y llywodraeth. Mae Cymru'n denu tua 3.3 % o gyfanswm gwariant y Bwrdd Strategaeth Technoleg, ac mae cyfran sylweddol uwch o ddyraniadau i bartneriaid academaidd yn hytrach na phartneriaid mewn diwydiant, o'i gymharu â chyfartaledd y DU. Byddwn yn **hwyluso'r ffordd i fwy o fusnesau gymryd rhan** yn y fenter hon.

Rydym yn croesawu, yn benodol, **adroddiad Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar yr Economi a Thrafnidiaeth ar Ymchwil a Datblygu a Masnacheiddio**, a byddwn yn datblygu cynlluniau i weithredu'r argymhellion.

Rydym yn gwneud cynnydd da. Gyda'n hanogaeth ni a'n cymorth ariannol drwy CCAUC, mae prifysgolion ar draws Cymru wedi dod ynghyd i ddatblygu sefydliadau cydweithredol sy'n fwy cadarn, cynaliadwy a hygred i'r byd ehangach ac i gyllidwyr ymchwil e.e. Sefydliad Gwyddorau Cyfrifiadurol a Mathemategol Cymru, y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel a'r Sefydliad Ymchwil Cyfrifiadura Gweledol.

Rydym ar fin lansio buddsoddiadau seilwaith mawr, fel y sganwr Tomograffeg Allyriant Positronau a

Chyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru. Rydym yn cydweithio â phob prifysgol ledled Cymru i adeiladu seilwaith cyfrifiadura ar gyfer y dyfodol a fydd yn cefnogi Ymchwil a Datblygu lefel uwch o ansawdd uchel mewn prifysgolion a diwydiant.

Byddwn yn **sicrhau bod Cymru'n cael y gyfran uchaf bosibl o'r cyllid allanol ar gyfer ymchwil** drwy gydweithio mwy â Chyngorau Ymchwil y DU, y Bwrdd Strategaeth Technoleg, elusennau, y Rhaglen Fframwaith a rhaglenni perthnasol eraill yr UE, ynghyd â'r prifysgolion sy'n cyflwyno ceisiadau am y cyllid hwn.

O ran cyllid y Cyngorau Ymchwil, mae Cymru'n gymharol lwyddiannus wrth ddenu cyllid oddi wrth y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC) a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Fodd bynnag, nid ydym mor llwyddiannus wrth geisio denu cyllid oddi wrth y tri Chyngor Ymchwil sydd â'r cyllidebau mwyaf: sef y Cyngor Ymchwil Feddygol, y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol a'r Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Dyma rai enghreifftiau o grwpiau llwyddiannus yng Nghymru sydd wedi llwyddo sawl gwaith i ennill incwm sylweddol ar gyfer ymchwil ac sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol am eu gwaith:

- Canolfan y Cyngor Ymchwil Feddygol ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig ym Mhrifysgol Caerdydd a ariennir ar y cyd â'r **Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**
- Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth, a enillodd £4.9 miliwn oddi wrth y BBSRC yn ddiweddar i ddatblygu mathau gwell o

geirch – gwaith rydym wedi'i ariannu ar y cyd drwy'r rhaglen Academia ar gyfer Busnes (A4B)

- Prifysgol Abertawe, sydd wedi sefydlu partneriaeth hirdymor â chwmni Rolls Royce ac a fydd yn elwa ar fuddsoddiad o £50 miliwn gan y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol a Rolls Royce mewn Systemau Metalaidd Strwythurol ar gyfer Cymwysiadau Tyrbinau Nwy Uwch.

Bydd angen inni adeiladu ar y llwyddiannau hyn ac **annog y llywodraeth gyfan i gefnogi Ymchwil a Datblygu**, gan greu cysylltiadau mwy effeithiol rhwng yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Un o nodau allweddol y **Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** fydd hyrwyddo cydweithio rhwng y GIG, diwydiant a'r sefydliadau Addysg Uwch. Bydd yn darparu ffordd newydd o ymgysylltu â'r gymuned Ymchwil a Datblygu yng Nghymru. Bydd mwy o gydweithio â'r byd academiaidd, darparwyr gwasanaethau, diwydiant, y sector gwirfoddol a grwpiau cleifion i gryfhau'r sylfaen Ymchwil a Datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hefyd yn cynnwys uned benodol i arwain strategaethau mewn perthynas â threialon masnachol, arloesedd yn y GIG ac eiddo deallusol, sydd oll yn ceisio gwella'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru a chyfrannu at yr economi ehangach. Mae'r ffordd newydd hon o weithio'n tanlinellu bod angen i'r holl bartneriaid gydweithio er mwyn cyflawni'r potensial llawn o ran Ymchwil a Datblygu ym maes iechyd a biowyddoniaeth.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni **addysgu, denu a chadw gwyddonwyr, peirianwyr, technolegwyr a**

mathemategwyr galluog er mwyn parhau a datblygu gweithgareddau a fydd yn helpu i ddatblygu diwylliant o arloesedd yng Nghymru. Diwygiwyd cwricwlwm Gwyddoniaeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae ffactorau amrywiol, gan gynnwys gwell cymhellion oddi wrth y Llywodraeth, yn golygu bod mwy o athrawon yn yr ysgolion yng Nghymru sy'n fwy cymwys. Fel gwlad flaengar, mae angen i ni sicrhau bod y rheini sydd am ddilyn gyrfaedd ym maes ymchwil yng Nghymru yn gallu gwneud hynny, ac yn gallu dod o hyd i swyddi graddedig ac ôl-raddedig ar ôl cwblhau eu hastudiaethau academiaidd.

I'r perwyl hwn, mae angen inni hefyd gefnogi busnesau ac unigolion i ddatblygu a masnacheiddio eu syniadau er mwyn creu swyddi newydd gwerth ychwanegol ar gyfer y dyfodol sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Rydym wedi penodi ein Prif Gynghorydd Gwyddonol cyntaf i Gymru a bydd *Polisi Gwyddoniaeth Cymru* (2006) yn cael ei ddiwygio erbyn Gwanwyn 2011. Mae'n bwysig bod pobl Cymru'n cydnabod pwysigrwydd gwyddoniaeth, a'u bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol a deallus ar fanteision a, weithiau, risgiau canfyddiadau newydd. Mae trafodaeth ddeallus o'r fath ynghylch materion gwyddonol yn bwysig am sawl rheswm. Byddai ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, athrawon a phobl eraill sy'n dylanwadu ar bobl ifanc bod gyrfa ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysig, yn gyffrous ac yn werthfawr yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n ymrwymo i weithio yn y meysydd hyn yng Nghymru. Yn ogystal, mae cefnogaeth y cwsmer ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau sy'n deillio o ganfyddiadau o'r fath yn cryfhau'r galw amdanynt yn y farchnad.

Bydd y Prif Gynghorydd Gwyddonol hefyd yn cyngori ar y broses o ddatblygu

Academi Wyddoniaeth Genedlaethol. Bydd yn **hyrwyddo gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ar bob lefel.**

Adnewyddu'r economi drwy wella'r gweithgareddau presennol

Yn ogystal â'r blaenoriaethau newydd ar gyfer adnewyddu'r economi, rydym eisoes yn gwneud gwaith sylweddol i wneud y gorau o gryfderau Cymru ac ysgogi a hwyluso ein gallu i gynnal gwaith ymchwil ac arloesedd. Mae angen i ni adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes.

Ceir meysydd arbenigol yng Nghymru lle ceir arbenigedd a chyfleusterau a gydnabyddir yn rhyngwladol, gan gynnwys IBERS, Opto-electroneg, Foundation Wales (a dreialwyd gyda EADS) a phrosiectau Trosglwyddo Gwybodaeth a ariennir gan Academia ar gyfer Busnes (A4B). Mae'r rhaglen £50 miliwn Academia ar gyfer Busnes, sy'n defnyddio cyllid o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn bennaf, yn ariannu'r gwaith o sefydlu canolfannau i drosglwyddo gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a thechnoleg i fusnesau a chynnal ymchwil a datblygu er budd busnesau. Mae A4B hefyd yn ariannu **cyfleusterau arbenigol** a gwaith i feithrin gallu yn y byd academaidd i gyflymu'r broses o arloesedd a masnacheiddio.

Rydym yn darparu cyllid craidd i brifysgolion drwy CCAUC sy'n eu galluogi i fuddsoddi mewn ymchwil. Mae'r cyllid hwn yn ariannu'r gwaith y mae angen ei wneud i gystadlu ac ennill cyllid ar gyfer gwaith ymchwil oddi wrth y Cynghorau Ymchwil, y Bwrdd Strategaeth Technoleg a ffynonellau eraill y llywodraeth, a'r sectorau iechyd a busnes.

Rydym yn helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol drwy fabwysiadu TGCh. Yn ogystal, rydym yn annog busnesau i fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu,

arloesedd, masnacheiddio IP, dylunio, datblygu cynhyrchion/prosesau newydd a thechnolegau newydd drwy ein dull gweithio integredig presennol ar gyfer annog arloesedd mewn busnesau. Mae Cymru eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol mewn canolfannau deori a chyfleusterau arbenigol, ac rydym wedi rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad hwn.

Yn ddiweddar adolygwyd incwm y Cynghorau Ymchwil yng Nghymru. Mae casgliadau'r astudiaeth hon wedi ein helpu i ddatblygu strategaethau i gynyddu'r incwm a ddaw i Gymru. Dyma rai o'r camau a gymerwyd:

- llunio trosolwg cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan gynnwys y cydweithredu sy'n bodoli eisoes
- mapio meysydd blaenoriaeth y Cynghorau Ymchwil yn erbyn meysydd rhagoriaeth allweddol Cymru
- datblygu partneriaeth agosach â'r Cynghorau Ymchwil a'r sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a rhyngddynt
- arddangos y cydweithredu sydd eisoes yn bodoli ar ymchwil i'r Cynghorau Ymchwil a chyllidwyr ymchwil eraill.

7. Targeddu'r cymorth rydym yn ei gynnig i fusnesau

Mae angen inni ganolbwyntio ein hadnoddau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf. Bydd hyn yn galluogi twf i'r economi yn ei chyfanrwydd yn hytrach na'n bod hi'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i fusnesau unigol. Byddwn yn datblygu dull strategol o gynnig cymorth i fusnes, yn seiliedig ar sectorau, gan ddatblygu ein rôl fel hwylusydd a galluogwr arbenigol.

Er mwyn adnewyddu'r economi mae angen inni:

- leihau lefel y cymorth busnes uniongyrchol a chyfeirio mwy o adnoddau i ddatblygu seilwaith ehangach
- symud tuag at fwy o ddiwylliant buddsoddi yn ein trafodion â busnesau
- mabwysiadu dull o weithredu yn ôl sector, gan ganolbwyntio'r cymorth ar weithio gyda chwe sector lle gall Cymru, drwy ymyrraeth sydd wedi'i thargedu'n well, fanteisio'n gystadleuol
- meithrin perthynas strategol gyda chwmnïau 'angor'
- cynnig cymorth cyfyngedig, arbenigol i bob busnes
- gwella'r ffordd rydym yn gweithio gyda busnesau.

Y Cyd-destun

Er bod y rhan fwyaf o lywodraethau'n darparu mathau o gymorth yn uniongyrchol i fusnes, cymysg yw'r dystiolaeth o ran y manteision economaidd. Yn gyntaf oll, cyfyngir ar allu llywodraeth i helpu'n effeithiol gan adnoddau a nifer y busnesau. Er enghraifft, er nad oes ffigurau swyddogol yn bodoli, yr amcangyfrif rhesymol fyddai bod darparu credyd newydd i fusnesau yng Nghymru o'r banciau yn unig wedi bod oddeutu £4 biliwn y flwyddyn yn y blynyddoedd diweddar. Hefyd, mae'r risg o ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft, ceisio cynnal busnesau llai llwyddiannus neu gefnogi rhai busnesau er anfantais i eraill (gweler *Dadansoddiad o'r cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol yng Nghymru*, Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Fodd bynnag, mae dystiolaeth yn dangos hefyd y gall lefel y cymorth busnes fod yn ddylanwad pwysig ar benderfyniadau ynghylch lleoli busnes (*Adolygiad o'r dystiolaeth economaidd ar yr hyn sy'n penderfynu buddsoddiad uniongyrchol o dramor a'i effeithiau*, Llywodraeth Cynulliad Cymru) a gallai'r cymorth ariannol fod wedi bod yn gymorth i greu gwaith mewn ardaloedd difreintiedig.

Er bod y dystiolaeth yn gymysg, mae'n amlwg y dylai cymorth i fusnesau, lle mae'n cael ei ddarparu, fod yn unol â blaenoriaethau'r llywodraeth a'i fod yn cael ei ddarparu pan fetha pob dim arall.

Rydym wedi nodi mai'r rôl fwyaf effeithiol ac effeithlon i ni yw canolbwyntio ar yr ysgogiadau polisi y mae gennym reolaeth fwyaf drostynt ac y mae eu dylanwad yn

fwyaf amlwg. Rydym wedi disgrifio pam a sut y bwriadwn gynyddu ein hymdrechion i fynd i'r afael â materion systemig ehangach yn yr economi – yn benodol drwy fuddsoddi yn y seilwaith, y sgiliau a gwella amodau gweithio'r busnesau.

O ganlyniad i hyn, bydd lefel y cymorth a roddwn i fusnesau unigol yn cael ei leihau'n sylweddol. Mae gostyngiad o'r fath yn gweddu i'n dadansoddiad ni, ac adborth rhanddeiliaid. Yn draddodiadol rydym wedi ceisio cyrraedd cymaint o fusnesau â phosibl ond mae hyd yn oed hyn wedi parhau i fod yn gyfran fach o economi Cymru. Rydym hefyd wedi gweithredu mewn meysydd lle'r oedd ein sail resymegol wreiddiol dros ymyrryd yn gryf. Ond gydag amser daeth yn amlwg mai'r sector preifat ddylai arwain ar hyn. Er enghraifft, rydym wedi cynnig cyllid ochr yn ochr â'r banciau ac rydym wedi negodi a thalu am gyngor busnes yn hytrach na chaniatáu i sefydliadau brofi'n annibynnol i'w cleientiaid werth buddsoddi yn y math hwn o gymorth.

Yn y dyfodol mae'n amlwg y dylem gyfyngu ein gweithgareddau i fylchau amlwg a phenodol yn y farchnad, lle byddwn yn ceisio cyflawni amcanion polisi penodol neu lle na fydd y sector preifat yn chwarae rhan.

Cymryd cyfeiriad newydd i adnewyddu'r economi

Rydym wedi cael adborth cyson drwy gydol y broses ymgysylltu y dylai Adran yr Economi a Thrafnidiaeth roi mwy o ffocws ar gymorth busnes. Mae angen inni ganolbwyntio ein hadnoddau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf, y tu hwnt i'r hyn y gall y sector preifat ei hunan ei gyflawni a rhoi sylw i faterion fel methiant y farchnad neu alw sylweddol. Bydd ein ffocws wrth fwrw ymlaen ar y sectorau, ochr yn ochr â pherthynas fwy strategol ac ymyriadau mwy penodol sydd wedi'u targedu.

Sectorau blaenoriaeth i ddatblygu'r economi

Nid ydym yn unig ddarparu'r cymorth i fusnesau yng Nghymru; mae rhannau o adrannau llywodraeth y DU, awdurdodau lleol ac Addysg Uwch hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau. Ac nid yw cymorth busnes yn faes i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn unig, fel sy'n cael ei ragdybio'n aml.

Yn 2008, fe fabwysiadwyd argymhelliad Grŵp Cynghori'r Gweinidog Adran yr Economi a Thrafnidiaeth y dylem wneud ein gweithgareddau'n gydnaws â sectorau allweddol economi Cymru er mwyn gwella gallu Cymru i gystadlu. Mae'n angenrheidiol canolbwyntio ar y sectorau nid yn unig gan fod adnoddau'n benodedig, ond hefyd gan fod y gymysgedd gyfredol o sectorau'n wendid yn economi Cymru, gyda gorddibyniaeth ar y sectorau sy'n tyfu'n araf.

Yn y gorffennol mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ceisio darparu rhywfaint o ymyrraeth ar draws ystod eang o'r sectorau. Fodd bynnag, wrth fwrw ymlaen bydd yn **canolbwyntio ei chymorth ar weithio gyda chwe sector** lle gall Cymru, drwy ymyrraeth sydd wedi'i thargedu'n well, ennill mantais gystadleuol ac elwa o farchnadoedd sy'n tyfu:

- TGCh
- Ynni a'r amgylchedd
- Deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu
- Diwydiannau creadigol
- Gwyddorau bywyd
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

Mae'r sectorau hyn yn cyfateb i oddeutu traean o'r cyflogwyr sector preifat yng Nghymru o ran trosiant busnes a chyflogaeth, o'u cymharu â mwy na dwy ran o dair o economi'r sector preifat a gynrychiolir gan yr

14 sector a argymhellwyd gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Adran yr Economi a Thrafnidiaeth – ailffocysu'r sectorau 'craidd/galluogi' a'r rhai sy'n bwysig yn strategol i Gymru. Mae'r sectorau hyn wedi dangos twf sy'n uwch na'r cyfartaledd ar lefel y DU. Amcanestynir y byddant yn perfformio'n dda yn y dyfodol, ac maent o bwys mawr i Gymru o ran cyflogaeth. Maent yn hollol gydnaws â'n blaenoriaethau ymchwil a datblygu i Gymru. Rydym hefyd wedi rhoi pwysoliad mawr i'r sectorau sy'n alluogwyr o fewn yr economi ehangach, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd i elwa ar TGCh, creu swyddi gwyrdd, sicrhau adnoddau effeithlon a symud tuag at economi carbon isel.

Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu'n rym mawr o ran datblygiad economaidd a'r newid cymdeithasol ehangach. Yn ogystal â bod yn sector diwydiant pwysig, mae'r defnydd o TGCh yn sbardun i gynhyrchiant a chystadleurwydd ar draws yr economi gyfan. Mae TGCh yn galluogi mwy o fasnachu a globaleiddio, gan greu byd 'mwy gwastad' sydd â mwy o gystadlu a mwy o gyfleoedd i fusnesau Cymru. Bydd TGCh hefyd yn chwarae rhan bwysig i'n helpu ni i fodloni heriau newid hinsawdd drwy reoli adnoddau'n effeithlon a chreu gridiau deallus.

Mae'r sector TGCh yng Nghymru'n cwmpasu electroneg, meddalwedd a gwasanaethau, gyda chymysgedd iach o fusnesau rhyngwladol a chynhenid. Cefnogir hyn gan gymuned ymchwil weithredol yn y prifysgolion a chysylltiadau cryf rhwng academia a busnes megis y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn Abertawe.

Ynni a'r amgylchedd

Mae diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy ac mae hyn yn ffurfio clwstwr busnes pwysig yn ei hunan. Mae hanes hir o adfer yr amgylchedd a'i reoli yng Nghymru a chydabyddiaeth fyd-eang i hyn.

Fel man cychwyn y chwyldro diwydiannol, fe wnaeth Cymru arwain y byd ym maes glo a dur: bellach mae mewn sefyllfa dda i gymryd rôl arweiniol o ran carbon isel a ffynonellau ynni cynaliadwy fel y gwynt, y llanw, trydan dŵr a biomas. Gan feddu ar adnoddau naturiol di-ri a busnesau a all fanteisio ar y cyfle, mae hwn yn sector sydd â photensial twf cadarn ar draws ynni carbon isel, effeithlonrwydd ynni, storio ynni a'i seilwaith, rheoli llygredd, rheoli amgylcheddol, ymchwil ac ymgynghoriaeth. Yn ddiweddar mae ymchwil i dechnolegau hydrogen, sy'n torri tir newydd, wedi arwain at Dde Cymru'n cael ei henwi fel Ardal Economaidd Carbon Isel y DU ar gyfer tanwydd amgen i drafnidiaeth.

Deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu

Mae'r sector deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu'n cynnwys cyfansoddiad, strwythur a phriodweddau deunyddiau a'u cymwysiadau penodol, ac felly gellid honni ei bod ar flaen y gad o ran arloesi technolegol. Yn ogystal â hyn mae'n darparu gweithgynhyrchu gwerth uchel sy'n seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a dylunio lefel uchel ac yn arwain at nwyddau a phrosesau cymhleth yn dechnegol.

Mae pwysigrwydd y sector yn seiliedig ar weithgareddau sy'n ategu datblygiad nwyddau a dyfeisiadau newydd yn y dyfodol i'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill. Mewn gwledydd lle mae economïau cost uchel datblygedig, fel ein gwlad ni, mae gweithgynhyrchu wedi gorfod newid yn sylfaenol a bydd yn parhau i wneud

hynny. Mae'r sector hwn yn cynnig y cyfle i wireddu manteision strategol a chyflogaeth gweithgynhyrchu ac ar yr un pryd i barhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang. Mae'r sector yn gwneud ymchwil sydd ar flaen y gad gydag adrannau peirianeg mewn prifysgolion yng Nghymru.

Mae'r farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gwerth uchel sy'n gysylltiedig â deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu yn debygol o gynyddu'n sylweddol, yn arbennig y rhai a gynhyrchwyd i fodloni safonau sy'n fythol esblygu ac yn amgylcheddol fanwl.

Yng Nghymru mae ein cryfderau penodol yn cynnwys y modurol, awyrofod ac electroneg.

Diwydiannau creadigol

Mae'r sector Diwydiannau creadigol mewn sefyllfa dda i gyflawni mwy o fomentwm drwy weithredu'r argymhellion yn Adolygiad Hargreaves (Mawrth 2010). Bydd y camau hyn yn miniogi'r meddwl strategol, yn egluro'r atebolrwydd ac yn gwella ein sianeli cyfathrebu gyda busnesau creadigol. Eu nod yw sicrhau bod Cymru'n datblygu ei sefyllfa gystadleuol yn rhyngwladol yn wyneb ymdrechion cryf yn y sector hwn oddi wrth wledydd eraill a rhanbarthau'r DU.

Mae llinell amser yn ei lle bellach ar gyfer:

- sefydlu Bwrdd Diwydiannau Creadigol (Hydref 2010) gydag agenda fanwl i'w rhoi ar waith yn y flwyddyn gyntaf
- creu Canolbwynt Strategol newydd ar gyfer Diwydiannau Creadigol (Medi 2010)
- penodi Pennaeth Diwydiannau Creadigol (Medi 2010)
- mapio 13 o is-sectorau'r Diwydiannau Creadigol (Hydref 2010)

- cytuno ar reolau dros dro ar gyfer ariannu'r sector (Gorffennaf 2010)
- sefydlu Cronfa Diwydiannau Creadigol newydd (Ebrill 2011) i gefnogi sylfaen ehangach o fusnesau creadigol
- adeiladu pentref drama/ canolfan gyfryngau ddigidol newydd y BBC ym Mae Caerdydd (gwaith ar y gweill)
- archwilio'r opsiynau ar gyfer ariannu lleoliadau ffilmio a theledu er mwyn sicrhau cymorth parhaol i arbenigedd y sector yng Nghymru (parhaus)
- gwella'r gwaith o gydgyssylltu adnoddau addysgol ar draws yr economi creadigol/ddigidol (parhaus).

Mae'r llwybr critigol hwn yn darparu model ar gyfer ein sectorau allweddol eraill.

Gwyddorau bywyd

Mae'r sector gwyddorau bywyd yn un amrywiol, byd-eang, ac yn cael ei yrru gan ymchwil, ac mae nodweddion y sector yn newid yn gyson wrth i is-sectorau ymddangos a datblygu. Mae'r sector yn cwmpasu busnesau fferyllol, biotechnoleg a thechnoleg feddygol, gyda gweithgareddau eang sy'n cynnwys ymchwil, profion, gweithgynhyrchu a darparu gwasanaethau arbenigol.

Yng Nghymru, mae gan y sector sylfaen gref o fewn y prifysgolion a chysylltiadau â hwy, a gallwn hawlio meysydd perfformiad o safon fyd-eang. Mae tueddiadau byd-eang bob amser wedi chwarae rhan bwysig wrth bennu datblygiad y sector, ac mae'r newidiadau o ran dulliau gweithredu gofal iechyd, demograffeg a datblygiadau technegol yn rhai o nifer o ffactorau arwyddocaol sy'n ei gwneud yn anodd rhagweld sut y bydd y sector yn edrych yn y dyfodol.

Beth bynnag, mae'n amlwg y bydd y sector gwyddorau bywyd, ac yn benodol rai o'i is-sectorau, yn debygol o fod yn

farchnadoedd byd-eang arwyddocaol gyda photensial cryf i dyfu.

Ymysg y cryfderau penodol yng Nghymru mae gwella clwyfau, dyfeisiadau a thechnoleg feddygol, diagnosteg a threialu clinigol.

Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol

Wrth i Gymru gynyddu ei chyfran o gyflogaeth mewn gwasanaethau, gwelwyd twf sylweddol yn y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. O ran gwasanaethau ariannol, mae twf mewn yswiriant, rheoli asedion, rheoli cronfeydd a chwmnïau pensiynau wedi ymuno â bancio manwerthu traddodiadol. Mae hwn yn sector bywiog ac arloesol sydd ag enwau brodorol cyfarwydd yn cystadlu gydag enwau rhyngwladol o'r radd flaenaf. Mae cyfleoedd sylweddol am dwf pellach yn y maes hwn wrth i ailstrwythuro ddigwydd i ddiwydiant bancio'r DU.

Mae mwy o gontractio allanol mewn AD, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau corfforaethol eraill wedi creu cyfleoedd newydd mewn gwasanaethau proffesiynol lle mae presenoldeb Cymru'n tyfu. Mae'r ffaith fod gweithlu crefftus ar gael yn hanfodol i'r sector hwn.

Dull sectorau integredig

Os ydym ni i fod yn effeithiol wrth gefnogi a datblygu'r sectorau hyn bydd angen inni gael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd i dwf busnes oddi mewn i'r sectorau yn ogystal â synergedd rhyngddynt. Ynghyd â'r wybodaeth hon, bydd angen ymyriadau hyblyg a thimau sy'n gallu bod yn arloesol ac yn gallu ymateb yn gyflym i gyfleoedd.

Ar gyfer y chwe sector hyn, byddwn yn dod â'n swyddogaethau a'n harbenigedd ynghyd fel y gallwn ymdrin ag anghenion y sectorau'n gyfannol. Erbyn Rhagfyr 2010 byddwn yn **creu timau sector integredig**, gyda'r adnodd hyblyg i weithredu'r

cynlluniau sector y cytunir arnynt yn gyflym. Disgwylir y bydd gan y timau broffiliau gwahanol, sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol pob sector.

Mae angen inni hefyd ddefnyddio arbenigedd academiaidd, sector preifat, strategol ac allanol ar gyfer pob sector. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy **sefydlu paneli sector**. Bydd pob panel yn cynnwys nifer fach o bobl fusnes sy'n meddu ar arbenigedd ac enw da yn eu sector. Bydd y paneli'n darparu cyngor i Weinidogion ar gyfleoedd ac anghenion yr amrywiol sectorau, gan ein helpu ni i ddatblygu a gweithredu ein polisiâu drwy **gynlluniau sector tair blynedd**.

Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys ystod lawn o weithgareddau sy'n cynnwys cymorth busnes, darparu cyllid ad-daladwy, gwasanaethau allforio, mewnfuddsoddi a chyfleoedd ymchwil a datblygu, gan gynnwys sut orau i alinio ysgogiadau polisi ar draws ein Hadrannau. Bydd y cynlluniau'n nodi sut y byddwn yn gweithio i ddod o hyd i gyfleoedd yn y cadwyni cyflenwi a chau'r bwch rhwng disgwyliadau prynwyr a gallu'r cyflenwyr. Byddant yn ein helpu i gael yr effaith orau o'n gwariant ac i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Drwy'r cynlluniau hyn byddwn yn datblygu cynigion soffistigedig, newydd ar gyfer y sectorau allweddol sy'n seiliedig ar sgiliau, ymchwil a datblygu, clystyru a gwerth ychwanegol gwirioneddol gyda'n prifysgolion a'n hisadeiledd ymchwil. Bydd ein cynigion i fuddsoddwyr yn cael eu marchnata o dan frand Cymru.

Disgwylir y bydd y cynlluniau a'r ymyriadau'n amrywio yn ôl sector, gan adlewyrchu eu hanghenion a'u cyfleoedd gwahanol. Bydd y cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yng ngoleuni cudd-wybodaeth bellach.

Gyda sefydlu'r paneli sector hyn, byddwn yn adolygu'r modd yr ydym yn cyllido'r Fforymau Sector presennol. Rhaid i'r Fforymau gael eu rhoi ar sail fwy cynaliadwy lle cânt eu harwain gan ddiwydiant a bydd iddynt rôl gynrychioliadol.

Bu Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru'n arbennig o effeithiol yn ei gyfraniad i bolisi sector (drwy'r Strategaeth Gweithgynhyrchu lle'r ydym yn gweithio gyda'r Fforwm fel partner) ac i'r Uwchgynadleddau Economaidd. Rydym yn gweld rôl barhaol i'r Fforwm yn cynrychioli diwydiant, gan weithio ochr yn ochr â'n panel sector newydd ar gyfer Deunyddiau Uwch a Gweithgynhyrchu.

Meithrin perthynas strategol

Un rhan hanfodol o'n dull sector o weithredu fydd **cryfhau ein perthynas â chwmnïau 'angor'**. Nid yw hyn yn ddynodiad ffurfiol, ond mae 'angor' yn golygu cwmnïau twf uchel sydd â'r potensial i gynyddu cyflogaeth yn ddramatig, a chwmnïau mawr sy'n bwysig fel cyflogwyr cenedlaethol neu leol gyda chadwyni cyflenwi helaeth yng Nghymru. Mae'r cwmnïau 'angor' hyn yn aml ar flaen y gad o ran arloesi newyddau, ymchwil a datblygu a rheoli, ac mae ganddynt ddylanwad arwyddocaol o fewn y gymuned fusnes ehangach. Byddwn yn meithrin perthynas strategol gyda chwmnïau o'r fath, ac yn cymryd safbwynt Llywodraeth gyfan wrth ystyried eu hanghenion.

Bydd hyn yn cynnwys cefnogi datblygu sgiliau drwy ddull creadigol. Byddwn yn cyflwyno rhaglenni arwahanol, wedi'u targedu, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cymorth angenrheidiol ar gyfer creu swyddi a gwella cynhyrchiant.

Bydd hefyd rhai cwmnïau y tu allan i'r sectorau allweddol, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus

a'r trydydd sector. Maent o werth tebyg i Gymru â chwmnïau 'angor' o ran cyflogaeth neu bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol. Byddwn yn meithrin perthynas strategol gyda'r cwmnïau a'r sefydliadau hyn ar yr un sail.

Ad-drefnu AETH i gyflawni

Bydd sicrhau Buddsoddi Uniongyrchol Tramor ac ysgogi masnach yn rhannau hanfodol o'n dull sector ni, er mwyn **manteisio'n llawn ar y cysylltiadau rhwng cyfleoedd domestig a rhyngwladol**. Bydd Busnes Rhyngwladol, Cymru'n peidio â bod yn swyddogaeth ar wahân o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Bydd timau sector integredig yn gyfrifol am sicrhau buddsoddiad newydd yn ogystal ag ôl-ofal wedi'i dargedu o Fuddsoddi Uniongyrchol Tramor sy'n bodoli fel y gallwn greu synergedd ar draws y sectorau ac annog ail-fuddsoddi.

Byddwn yn **adolygu ein gweithrediadau mewn marchnadoedd tramor**. Ein nod fydd rheoli'r rhan fwyaf o farchnadoedd Ewrop o Gymru fel mater o drefn, ac ymgymryd â gweithgareddau byrdymor sy'n seiliedig ar brosiectau yn y farchnad gartref i fanteisio ar gyfleoedd fel y codant.

Byddwn yn **ailffocysu ein cymorth arloesi i fusnesau** fel ei fod yn canolbwyntio ar y sectorau allweddol ac yn galluogi dull "pen i ben" o weithredu masnacheiddio, gan wneud y mwyaf o'r cysylltiadau ag academia.

Byddwn yn rhoi sylw i gapasiti deori busnes sy'n cael ei danddefnyddio. Adolygwyd rhwydwaith Technium yn helaeth; erys pryderon fod ei berfformiad wedi bod yn gymysglyd er bod yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn ased gwerthfawr i Gymru. Rydym wedi gweithredu dull newydd o reoli yn Technium i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Ar ddiwedd Awst 2010, blwyddyn ar

ôl i'r dull hwn o reoli gychwyn, byddwn yn adolygu'n gritigol effaith y mesurau a gymerwyd hyd yn hyn. Byddwn yn ystyried ffactorau fel perfformiad, defnydd, cost eiddo ac incwm pob Technium ac yn gorffen ariannu'r cyfleusterau Technium hynny lle nad ydym yn cael elw da'n gyffredinol.

Byddwn yn strwythuro ein swyddogaethau rhanbarthol, polisi a gwasanaethau corfforaethol i gyd-fynd â'n ffocws newydd.

Byddwn yn cydweithio â WEFO i adolygu portffolio cyfredol prosiectau cymorth busnesau a ariennir gan Ewrop er mwyn sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio'n fwy cadarn ar ddarparu cymorth i sectorau allweddol a rhoi sylw i fethiannau yn y farchnad.

Cyllid Busnes

Mae angen i fusnesau ac entrepreneuriaid yng Nghymru gael mynediad i ddyled, ecwiti a mesanîn o fanciau, buddsoddwyr a chronfeydd cyfalaf menter i helpu i ariannu twf busnesau cyfredol a busnesau newydd sy'n dechrau gyda photensial twf uchel.

Mae graddfa'r cyllid credyd a ddarperir gan y sector preifat yn llawer mwy nag unrhyw swm y gallai'r Llywodraeth ei gynnig. Eto i gyd mae ein rôl wrth ddarparu cymorth ariannol i fusnes yn cael ei drafod yn frwd, yn ôl tystiolaeth ein proses ymgysylltu.

Yn ôl llawer mae cynnig grantiau yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n amharu ar gystadleuaeth, yn creu dibynadwyedd, ac yn defnyddio adnoddau y gellid eu hadleoli i rywle arall am fwy o effaith economaidd. Ar y llaw arall, mae rhai'n ystyried grantiau'n hanfodol i rai sectorau, i rai prosesau busnes (er enghraifft cam cyntaf ymchwil a datblygu), ac i gyflawni rhai amcanion strategol penodol (er enghraifft effeithlonrwydd adnoddau).

Rydym wedi ystyried yr ystod o opsiynau ac yn credu bod sail resymegol dros ymyrraeth ariannol gan y llywodraeth at ddibenion polisi penodol. Yn bennaf, rydym am annog twf mewn sectorau allweddol ac rydym yn cefnogi'r trosglwyddiad i economi carbon isel.

Fodd bynnag, mae angen inni hefyd symud tuag at ddiwylliant o fuddsoddi. Felly bydd yr holl gyllid a ddarperir gan Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn uniongyrchol yn ad-daladwy. Bydd y telerau'n amrywio yn dibynnu ar bwrpas a maint y pecyn ariannol. Rydym wedi cael adborth cryf fod ein dull ni o weinyddu cyllid yn araf ac yn fiwrocratig. Byddwn yn sicrhau y bydd y gwasanaeth ar gyfer yr holl gymorth ariannol uniongyrchol a ddarperir gennym yn y dyfodol i fusnesau yn gyflym ac yn ymatebol.

Sicrhau y gall busnesau sicrhau cyllid

Gall busnesau yng Nghymru gael mynediad i gyllid masnachol o amrywiol ffynonellau. Mae nifer o sefydliadau ariannol yn gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys Cyllid Cymru. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd Cyllid Cymru'n parhau i fuddsoddi £150m drwy gyllid Ewrop a Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) gyda chefnogaeth menter JEREMIE.

Ond mae bylchau yn y ddarpariaeth hon – cydnabuwyd hyn gan Adolygiad Rowlands Llywodraeth flaenorol y DU. Mae angen inni sicrhau bod yr ystod lawn o gyllid ar gael i fusnesau Cymru ar gyfer adnewyddu economaidd, gan gyflawni nid yn unig y galw cyfredol ond ariannu'r ehangu uchelgeisiol yr ydym am ei weld o'r sector preifat. Mae angen cyllid ar fusnesau i ddechrau ac i sicrhau buddsoddiad mewn twf drwy gyflenwadau digonol o fenthyciadau, cyfalaf menter ac ecwiti preifat.

Byddwn yn ceisio cyngor arbenigol er mwyn **nodi'r bylchau sy'n bodoli ar**

hyn o bryd a sut orau y gallwn ysgogi buddsoddiad sector preifat. Byddwn yn sicrhau bod cyllid ar gael i ysgogi buddsoddiad o'r fath. Hefyd, byddwn yn edrych ar y ddarpariaeth o ficro-gyllid a'r posibilrwydd o sicrhau buddsoddiad ychwanegol drwy arian Ewropeaidd, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r EIB.

Gwyddom o'r Uwchgynadleddau Economaidd fod benthyciadau'n dal i gael eu tynnu nôl oddi wrth fentrau bach a chanolig yn arbennig yn y sectorau fel adeiladu, manwerthu, twristiaeth a thrafnidiaeth, ac yn cael eu lleihau, neu godiad sylweddol i'w cyfleusterau gorddrafft a chodi llog a threfniant ffioedd. Mae lefel craffu'r banciau o ran ad-daliadau, prasio a cheisiadau am fenthycia arian/gorddrafft wedi newid yn sylweddol. Gyda'r lefel newydd hon o ran craffu a phrasio mae'r angen i fusnesau fod yn 'barod am gynigion' wrth ddelio â'r banciau yn dod yn fwyfwy pwysig.

Rydym eisoes wedi gweithio gyda banciau yng Nghymru i gyhoeddi Cynllun Deg Pwynt i helpu busnesau i sicrhau neu ail-negodi benthyciadau, ac rydym wedi trefnu gweithdai ar sut i sicrhau cyllid busnes ledled Cymru. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn wneud rhagor fydd yn atal statws credyd niweidiol rhag dod ar draws cynigion busnes sicr.

O ran ein cyllid ein hunain, rydym yn lleihau swm y cyllid sydd ar gael i fusnesau unigol fel y gallwn fynd ati i gyflawni ein hamcanion seilwaith. Mae hyn yn cyd-fynd â'n rôl fel galluogwr yn hytrach na fel cystadleuydd yn y farchnad cyllid busnes. Mae hyn yn golygu bod angen inni **ffocysu'r cyllid sy'n weddill mewn dull sydd wedi'i dargedu'n fwy.** Ni fydd y Gronfa Fuddsoddi Sengl yn gweithredu mwyach; yn lle hynny, caiff cyllid ei gyfeirio at gefnogi ein dull newydd o weithredu fel a ganlyn:

Cyllid i'r sectorau

Dim ond os gallwn sicrhau'r cyllid ar gyfer y cynlluniau sector y mae modd inni eu cyflawni. Bydd y sectorau allweddol yn cael tua hanner y Gronfa Fuddsoddi Sengl flaenorol, yn y lle cyntaf ar sail gyfartal ond yn nes ymlaen yn unol â'r angen. Bydd yr amserlen ar gyfer sicrhau'r newid hwn yn dibynnu ar ein hymrwymiaidau presennol ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn anelu i gyflymu rhyddhau'r cyllid o'r ymrwymiaidau hyn drwy adolygu a gorfodi amodau'r grant yn llym. Caiff yr ymarfer hwn ei gwblhau erbyn Awst 2010.

Mae'r modd y caiff y gyllideb newydd ei defnyddio'n dibynnu ar ofynion y sectorau unigol. Bydd y gymhareb rhwng buddsoddi mewn busnesau brodorol a phrosiectau symudol (megis mewnfuddsoddwyr neu diogeli swyddi Cymru o fewn cwmnïau rhyngwladol), er enghraifft, yn amrywio rhwng y sectorau.

Economiâu rhanbarthol

Credwn fod gennym rôl o hyd yn gweithio gyda busnesau sy'n tyfu sy'n bwysig yn rhanbarthol. Byddwn yn sicrhau bod cyllid cyfyngedig ar gael at y diben hwn; bydd y modd y caiff y cyllid ei ddefnyddio'n dibynnu ar flaenoriaethau rhanbarth penodol. Rydym yn sylweddoli bod cynhyrchu bwyd, yn arbennig prosesu prif gynnyrch amaethyddol, yn ffactor pwysig mewn economïau rhanbarthol a byddwn am i'n gwaith rhanbarthol adlewyrchu hyn. Gall hefyd, er enghraifft, olygu buddsoddi mewn seilwaith, mewn busnesau unigol neu mewn gweithgaredd arall sy'n cefnogi'r economi rhanbarthol a'i anghenion unigryw.

Ymateb i gyfleoedd yn y dyfodol

Bydd Cymru'n parhau i fod yn agored i syniadau da ar draws yr economi ehangach. Mae angen inni gadw'r hyblygrwydd i ariannu prosiectau strategol y tu allan i'n sectorau allweddol a fydd yn sicrhau swyddi a thwf. Felly

byddwn yn cadw'r hawl i ystyried cynigion o ansawdd uchel am gymorth, gan gynnwys mewnfuddsoddi – ond dim ond os yw eu gwerth yn llawer iawn gwell na phrosiectau sydd ar waith gan ein sectorau ni.

Dechrau busnes a gwybodaeth am fusnes

Yn ogystal â'n dull sector ni o weithredu, credwn fod rhai ardaloedd penodedig lle mae'r sail resymegol dros ymyrraeth yn ddigon cryf i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ymyrryd.

Erys rôl i'r Llywodraeth annog entrepreneuriaeth – mae'n hanfodol ar gyfer datblygu economi gref ac felly'n dyngedfennol i'n ffyniant yn y dyfodol. Mae angen inni greu mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd a manteision entrepreneuriaeth er mwyn annog rhagor o bobl i ddechrau busnesau, yn ogystal â helpu entrepreneuriaid sefydledig. Rydym am gadw a denu unigolion sy'n entrepreneuriaid ac yn meddu ar y sgiliau a'r uchelgais i lwyddo i greu cenedl gyfoes a deinamig.

Rydym eisoes wedi pwysleisio'r pwysigrwydd a roddwn ar annog entrepreneuriaeth ymysg ieuenctid. Mae'r dirwasgiad yn ei gwneud hi'n anodd iawn i bobl ifanc. Yng Nghymru mae un o bob wyth o'n pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, ac mewn rhai ardaloedd mae bron i hanner y di-waith o dan 25 oed. Mae diweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru yn uwch nag yn y DU (19.1% vs 18.4%). Bydd y person cyffredin bellach yn newid ei swydd chwe gwaith yn ystod ei yrfa. Mae felly'n hanfodol bod pobl ifanc yn dod yn ymwybodol o entrepreneuriaeth fel y gallant addasu i heriau newydd a chael eu hysgogi i lwyddo. Er mwyn cyflawni hyn rhaid inni weithio gyda'n gilydd i annog creu cwmnïau newydd a hyfyw a all ddod allan o'r hinsawdd economaidd bresennol a gwneud

gwahaniaeth gwirioneddol i economi Cymru a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Byddwn yn lansio **fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid i Gymru (YES): Cynllun Gweithredu (2010-2015)** yn ystod hydref 2010. Ochr yn ochr ag addysg fenter ar lefel uwchradd a thrydyddol, bydd YES yn anelu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes. Bydd y Cynllun Gweithredu'n amlinellu'r mesurau ar gyfer y prif gynulleidfaoedd: pobl ifanc, y byd addysg, busnes a'r gymuned. Bydd yn cynnwys SYNIADAU MAWR – ymgyrch newydd i bobl ifanc sy'n meddwl am ddechrau mewn busnes gyda ffocws cryf ar-lein.

Mae hunangyflogaeth yn llwybr pwysig allan o anweithgarwch economaidd a byddwn yn rhoi **blaenoriaeth i hunangyflogaeth er mwyn ymdrin â phroblemau cyfranogi** yn yr economi. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'i hagenda O Fudd-dâl i Waith a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

Mae gweithgaredd entrepreneuriaid yng Nghymru ar y cam cynnar hwn yn weddol gryf, gyda chyfradd TEA o 6% yn 2009 o'i chymharu â chyfradd y DU o 5.8% (Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang). Yr her o'n blaenau yw trosglwyddo lefel y diddordeb a gweithgarwch entrepreneuriaid cynnar i annog hunangyflogaeth a chyfraddau dechrau busnes.

Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar **fusnesau sy'n dechrau sydd â photensial uchel** ac sydd ag ansawdd uchel o ran swyddi a'r incwm y maent yn eu cynhyrchu yn enwedig yn y sectorau allweddol ac ymysg graddedigion i effeithio ar lefelau ein cyfradd genedigaethau. Bydd hyn yn golygu mwy o arbenigedd o ran cynhyrchu syniadau a datblygu'r gadwyn gyflenwi o amgylch

sectorau allweddol lle mae cyfleoedd masnachol sylweddol.

Caiff ansawdd a chysondeb ein holl gymorth ei fonitro a'i werthuso'n drwyadl a bydd yn golygu cael dealltwriaeth o'r cwsmer i sicrhau ein bod yn bodloni gofynion ein cwsmer. Byddwn yn **ail-ganolbwyntio ein gwasanaeth i ddechreuwyr busnes** er mwyn cefnogi hunangyflogaeth yn enwedig i ymdrin â phroblemau cyfranogi a rhoi mwy o ffocws ar fusnesau sy'n dechrau sydd â photensial uchel.

Byddwn yn **lleihau ein cymorth un-i-un** y tu hwnt i'r cam dechrau busnes ac yn creu lle ar gyfer cymorth busnes sector preifat i fusnesau mwy sefydledig. Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth canolfan ranbarthol a gontractiwyd yn unol â'r dull newydd hwn erbyn diwedd Mawrth 2011.

Mae gennym rôl o hyd i ddarparu gwybodaeth i fusnesau, yn enwedig arlein, i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar ganllawiau ar faterion pwysig a chyfleoedd am fusnes, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf o ran y rheolau a'r rheoliadau diweddaraf a'u helpu i ddeall eu rhwymedigaethau i Lywodraeth a sut i'w cyflawni arlein. Byddwn yn darparu **mwy o wybodaeth o ansawdd gwell i fusnesau** gan ganolbwyntio ar ddatblygu ein cynnwys a'n gwasanaethau arlein yn seiliedig ar anghenion a barn ein cwsmeriaid i gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau arlein sy'n cael eu cynnig.

Mae angen inni hefyd annog ymddygiadau busnes sy'n cefnogi ein hamcanion polisi ehangach, er enghraifft effeithlonrwydd a chydraddoldeb o ran adnoddau. Byddwn yn parhau i gynnig cynlluniau cymorth at y diben hwn; bydd cyfyngiad amser i'r cynlluniau hyn, a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae brwdfrydedd gwirioneddol ymysg busnesau llwyddiannus yng Nghymru

i ymgysylltu â mentrau sydd newydd eu sefydlu yn eu cymuned, drwy rwydweithiau neu weithgarwch mentora. Byddwn yn datblygu **Fframwaith Mentora Gwirfoddol Busnesau** o fewn Cymru i wella'n sylweddol ddarpariaeth, hygyrchedd ac ansawdd mentora busnesau yng Nghymru. Bydd y fenter yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn arbennig Elusennau'r Tywysog. Byddwn hefyd yn recriwtio ac yn sefydlu rhwydwaith o hyrwyddwyr enterpreneuriaeth erbyn Ebrill 2011.

O ganlyniad i hyn, ni chaiff y brand Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) ei ddefnyddio mwyach.

Cefnogi adnewyddu'r economi drwy ein gweithgareddau presennol

Darperir cymorth arbenigol i fusnesau drwy nifer o'n Hadrannau. Er enghraifft, darperir cymorth i fusnesau bwyd-amaeth a theuluoedd ffermio gan yr Adran Materion Gwledig; anghenion y diwydiant twristiaeth gan yr Adran Dreftadaeth; datblygu'r gweithlu a'i sgiliau gan yr Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; caiff mesurau busnes a dargedwyd ar garbon isel ac effeithlonrwydd adnoddau eu cynnig gan Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn rhoi cymorth i fenter gymdeithasol a'r trydydd sector.

Mae cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu am resymau polisi penodol gydag ymyriadau sydd wedi'u targedu'n glir, ac yn aml am resymau ychwanegol i ddatblygu economaidd. Er enghraifft:

Ffermio a busnesau gwledig

Rydym yn rheoli cymorth i ffermwyr drwy daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r sail resymegol dros ymyrryd wedi symud i

ffwrdd o gymorthdaliadau cynhyrchu i gymhorthdal incwm uniongyrchol er mwyn cynnal cynhyrchu bwyd a rhoi mwy o ffocws ar dalu'r ffermwyr i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr, ond heb eu marchnata, yn hytrach na chymorthdaliadau pur. Er enghraifft, gyda'r cynllun Glastir newydd, caiff ffermwyr eu talu am warchod natur, rheoli dŵr, rheoli pridd a charbon, cynhyrchu ynni, cynnal mynediad a diogelu safleoedd hanesyddol.

Diwydiant Bwyd

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'r gadwyn cyflenwi bwyd yng Nghymru drwy ddatblygu'r farchnad, atgyfnerthu diwylliant bwyd positif, a hybu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd. O dan y Cynllun Datblygu Gwledig, mae Cynllun y Grantiau Prosesu a Marchnata a'r Cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi'n darparu cymorth uniongyrchol i fusnesau yn y sector hwn. Mae gofynion yr UE yn gosod rhai cyfyngiadau ar y mathau o fusnesau y gallwn eu cynnal.

Er bod y diwydiant bwyd yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig i ardaloedd gwledig Cymru, mae dadansoddiad o'r busnesau bwyd sydd wedi'u cofrestru gyda'n cynlluniau cymorth yn dangos bod dros un o bob pump ohonynt mewn ardaloedd trefol.

Twristiaeth

Rydym yn canolbwyntio ar farchnata Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol, gan ddatblygu'r seilwaith twristiaeth, ac ar raddio a chefnogi busnesau lletygarwch – er mwyn darparu gwybodaeth i ymwelwyr ac i godi safonau. O ran adnewyddu'r economi, byddwn yn symud cyllid buddsoddi ar gyfer twristiaeth o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl i fod o dan reolaeth uniongyrchol ein tîm twristiaeth. Cymhwysir yr egwyddorion a ddisgrifir yn y ddogfen hon i'r defnydd o'r cyllid

hwn, gyda mwy o bwyslais ar gefnogi seilwaith twristiaeth a gwella perfformiad amgylcheddol y sector.

Menter Gymdeithasol

Rydym yn cydnabod y cyfraniad positif a wneir gan fentrau cymdeithasol hyfyw i economi gynaliadwy, amrywiol a chryf. Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy, ac nid yn llai, perthnasol yn yr economi fodern – wrth ddarparu atebion i ddulliau newydd a rhai sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus; wrth alluogi pobl leol ac adfywio cymunedau; ac wrth gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol (2009) yn nodi ein gweledigaeth o fentrau cymdeithasol deinamig a chynaliadwy sy'n cryfhau economi gynhwysol sy'n tyfu.

8. Ymgysylltu a phartneriaethau parhaus

Er mwyn datblygu cyfeiriad newydd rydym wedi gwneud gwaith ymgysylltu ar gam cynnar iawn yn y broses llunio polisi. O'r cychwyn, gofynnwyd am farn rhanddeiliaid ac fe'i hystyriwyd ochr yn ochr â thystiolaeth cyn i gynigion gael eu hystyried. Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r cyfeiriad newydd ar gyfer adnewyddu'r economi i'w gweld yn <http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/help/economicrenewal/?skip=1&lang=cy>.

Yn sgîl y dull hwn, gwelwyd brwdfrydedd ac awydd gwirioneddol i barhau i ymgysylltu yn y ffordd hon yn y dyfodol. Rydym am seilio polisiâu a ddatblygir gennym yn y dyfodol ar hyn.

Rydym yn benderfynol na fydd y broses ymgysylltu yn dod i ben am ein bod wedi pennu cyfeiriad newydd. Rydym am i bobl, busnesau a sefydliadau partner, yn ogystal â'n staff a'u Hundebau Llafur, gymryd rhan weithredol yn y broses gyflawni, gan sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd, a bod ein polisiâu a'n rhaglenni yn berthnasol ac yn briodol o hyd.

Un o nodweddion ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned fusnes drwy'r Uwchgynadledau Economaidd a'r gwaith o ddatblygu'r cyfeiriad newydd hwn ar gyfer adnewyddu'r economi, yw'r realaeth a ddangoswyd gan bob parti. O'r cychwyn cydnabuwyd rolau a chryfderau pob parti yn ogystal â'r hyn y gellir ei gyflawni a phwy ddylai wneud hynny. Dyma'r diwylliant a'r dull gweithredu rydym am eu cynnal a'u datblygu yn y dyfodol, gan ategu ein pwyslais ar rôl

alluogi, a rôl busnesau eu hunain wrth fanteisio i'r eithaf ar y seilwaith a'r amgylchedd cystadleuol a gynigir.

Gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol

Yn ystod ein hadolygiad o effeithiolrwydd yr Uwchgynadledau Economaidd a gynhaliwyd ledled Cymru, cawsom negeseuon clir iawn gan rhanddeiliaid ynghylch y ffordd y mae angen i'n gwaith ymgysylltu ddatblygu. Mae'n amlwg bod angen i ni ddysgu o brofiadau'r Uwchgynadledau Economaidd, a oedd yn canolbwyntio ar weithredu a lle darparwyd adborth parhaus ar gynnydd, ac adeiladu arnynt. Ond mae angen i ni hefyd ymgysylltu'n fwy effeithiol wrth ddatblygu ein huchelgeisiau tymor hwy ar gyfer economi Cymru.

Yn y cyd-destun hwn, mae rhanddeiliad wedi nodi bod gwerth cael trefniadau partneriaethau cymdeithasol cyffredinol. Mae angen hefyd ailfywiogi model y Cyngor Partneriaeth Busnes o ymgysylltu â busnes, sy'n golygu y caiff llais y cyflogwr (drwy sefydliadau cynrychioliadol) a'r cyflogai (drwy Undebau Llafur) ei glywed yn glir yng nghalon Llywodraeth.

Mae'r Cynllun Busnes (2008), a baratowyd o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, eisoes yn nodi ar ba sail y dylem ymgysylltu â busnesau. Mae'r egwyddorion a nodir yn y cynllun, yn enwedig o ran ymgysylltu'n gynnar â busnesau wrth ddatblygu polisiâu a rheoliadau sy'n effeithio ar eu buddiannau, yn gadarn ac yn hynod o berthnasol o hyd. Fodd bynnag,

gwyddom fod angen ymgorffori'r cynllun yn ehangach ymhob un o'n Hadrannau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i roi **dull newydd ar waith mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Busnes**.

Gweithio gydag awdurdodau lleol

Rydym wedi trafod ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol mewn modd adeiladol iawn fel rhan o'r broses hon. Mae gan awdurdodau lleol rôl amrywiol a phwysig i'w chwarae ym maes datblygu'r economi drwy weithgareddau fel cynllunio a swyddogaethau rheoli cynllunio, rheoli a datblygu trafnidiaeth a seilwaith arall, a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

Yn achos adnewyddu'r economi, rydym yn newid ffocws ein polisi a'n gwaith cyflawni. Fel un o'r prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, mae cysylltiad anorfod rhwng gwaith llywodraeth leol a'n gwaith ni. Mae'n gwneud synnwyr felly y bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth agos i ysgogi'r camau gweithredu a nodir yn y rhaglen newydd hon.

Byddwn yn **gweithio gydag awdurdodau lleol** i ddatblygu'r cyfeiriad newydd hwn, gan ystyried yn benodol sut y gellir cysoni ein blaenoriaethau a ble y gallwn gydweithio er mwyn cael yr effaith orau.

Gweithio gyda rhanddeiliaid i gael yr effaith fwyaf yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Cydnabyddwn y manteision sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â busnesau a rhanddeiliaid eraill yn rhanbarthol. Ymhlith y manteision hyn mae asesu sut y gallwn ychwanegu gwerth drwy gydlynw ein gweithgareddau, cael adborth ar sut y mae ein polisiâu a'n dulliau o'u cyflawni yn gweithio a deall sut y mae ein rhaglenni cenedlaethol yn effeithio ar faterion a blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.

Un o gryfderau allweddol ein dull o weithredu yw ein swyddfeydd rhanbarthol. Defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau ffurfiol a mwy anffurfiol i siarad â'n rhanddeiliaid rhanbarthol. Gwerthfawrogwn y rôl y mae fforymau economaidd rhanbarthol yn ei chwarae wrth ddwyn ynghyd arbenigedd a barn. Mae'r fforymau hyn yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol ledled Cymru; mae angen i ni sicrhau eu bod yn diwallu anghenion rhanddeiliaid (gan gynnwys ni ein hunain) yn eu rhanbarthau a bod arfer gorau yn cael ei rannu rhwng rhanbarthau.

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chynllunio ar lefel ranbarthol. Mae wedi chwarae rôl bwysig o ran nodi'r cyfeiriad strategol cyffredin ar gyfer datblygu cynaliadwy ymhob rhan o Gymru. Mae'r pwyslais bellach ar ddarparu a blaenoriaethu adnoddau prin er mwyn cael yr effaith fwyaf, yn enwedig drwy fuddsoddi a darparu manteision ehangach.

Byddwn yn sicrhau bod proses y Cynllun Gofodol yn canolbwyntio ar fuddsoddi a nifer benodol o flaenoriaethau cyflawni allweddol a nodwyd gyda phartneriaid. Byddwn yn symleiddio prosesau, fel rydym wedi'i wneud yn Ne-orllewin Cymru lle rydym yn dwyn dwy o ardaloedd y Cynllun Gofodol ynghyd er mwyn symleiddio gwaith ymgysylltu a gwella'r gallu i gyflawni.

9. Cyflawni er mwyn adnewyddu'r economi

Dangosodd profiad diweddar mai prin y gellir rhagweld y dyfodol economaidd yn gywir ac o ganlyniad i hyn, mae mwy o angen nag erioed i ni gyd fod mewn sefyllfa dda i ymateb i newid. Fel bod ein dull o adnewyddu'r economi yn datblygu'n briodol yn unol â newidiadau anochel mewn amodau byd-eang ac economaidd, rhaid i ni allu nodi angen sy'n datblygu yn gyflym ac addasu polisi gan wybod beth sy'n gweithio orau o dan amgylchiadau gwahanol.

At hynny, mae'r cyfeiriad newydd a nodir yn y ddogfen hon yn dynodi newid yn ein dull o weithredu wrth i ni droi ein cefn fwyfwy ar ymyriadau busnes byrdymor sydd wedi'u teilwra o blaid buddsoddiadau mwy strategol a strwythurol dros dymor hwy. Fel y cyfryw, bydd hyn yn galw am newid tebyg wrth fonitro a gwerthuso syniadaeth a dulliau, ac ymwrthod â'r hyn a fu'n llwyddiannus yn y gorffennol.

Mae wedi dod i'r amlwg felly bod angen i ni newid ein dull o fesur cynnydd yn sylweddol, yn yr ystyr ehangaf. Yn ogystal ag olrhain cynnydd amrywiaeth o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol, yn draddodiadol rydym wedi olrhain perfformiad yn nhermau mesurau gweithgarwch neu allbynnau, gan wneud gwaith monitro a gwerthuso ar gyfnodau amrywiol. Rhaid i'r her ddechrau gyda nodi arfer da a meincnodau yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys y ffordd orau o sefydlu llinellau sylfaen, meintioli effeithiau ac allbynnau, ymgorffori gwaith asesu lles, a mesur canfyddiadau a boddhad rhanddeiliad.

Fodd bynnag, mae datblygu dull o weithredu sy'n addas at y diben yn galw am ystyriaeth ofalus a mewnbwn eang er mwyn sicrhau ein bod yn cael pethau'n gywir. Yn ganolog i'r hyn a ddatblygir bydd ymrwymiad i sicrhau bod gwybodaeth o safon ar gael yn rheolaidd i'w defnyddio i lunio asesiadau cytbwys o gynnydd, yn ogystal â chydnyddiaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth a datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol sector cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn cyhoeddi fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant yn yr hydref.

Rydym wedi amlinellu yma ddull cynhwysfawr a phwrpasol o weithredu er mwyn adnewyddu economi Cymru. Cyfeiriad cwbl newydd sy'n adeiladu ar gryfderau Cymru, yn cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli, ac yn nodi'n glir y rôl y dylai llywodraeth ei chwarae. Seiliwyd y dull o adnewyddu'r economi ar safbwyntiau pobl a gasglwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, dadansoddiad o weithgareddau yng Nghymru a thu hwnt a her gadarn.

Yr her sy'n ein hwynebu nawr yw cyflawni. Gallwn anelu rhywfaint i'r cyfeiriad newydd ar unwaith, er enghraifft bydd newidiadau sefydliadol yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd elfennau eraill yn cymryd mwy o amser i'w cyflawni'n gywir, ac fe'u datblygir dros y misoedd nesaf. Fel llywodraeth, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ac yn ei adolygu'n rheolaidd.

